Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Addysg Drochi Cymraeg

## Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed

Chwefror 2022



# Addysg Drochi Cymraeg - Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed

Mae’r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg at Estyn ar gyfer 2021-22. Yn unol â’r cais, mae’n cyflwyno tystiolaeth am arfer effeithiol yn y maes addysg drochi. Mae’n cwmpasu dulliau trochi yn y cyfnod sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn ogystal â dulliau trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr 3-11 mlwydd oed. Mae’n adrodd ar ganfyddiadau o ymweliadau â sampl o ddarparwyr ledled Cymru.

Mae athroniaeth addysg drochi yn berthnasol i Lywodraeth Cymru gan y gall defnyddio methodoleg trochi helpu i gyfrannu at y targedau a nodir yn ‘Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr’. Amlinellwyd hyn yn benodol pan nodwyd ‘bydd cynllunio’r cwricwlwm ac addysgeg yn cael eu llywio’n fwy gan ymchwil a thystiolaeth am addysgu a dysgu iaith yn effeithiol, gan gynnwys dulliau trochi iaith’ (Llywodraeth Cymru, 2017b).

Bydd yr adroddiad hwn yn nodi arfer orau mewn perthynas â throchi dysgwyr yn y Gymraeg, tra'n gosod y cyd-destun ynglŷn â'r defnydd presennol o addysg drochi yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd yn flaenorol gan Estyn, gan gynnwys yr adroddiad diweddar Caffael yr Iaith Gymraeg (Estyn, 2021) a’r adroddiad Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (Estyn, 2018).

# CYNNWYS

**Am y ddogfen**
Hawlfraint
Background
Prif ganfyddiadau
Argymhellion
Arweinyddiaeth
Darpariaeth
Dysgu ac agweddau at ddysgu
Atodiad 1 – nifer a lleoliadau canolfannau trochi iaith
Atodiad 2 – blaenoriaethau cenedlaethol
Atodiad 3 – trochi cynnar a throchi hwyr yn system addysg Cymru
Methods and evidence base
Geirfa
Cyfeiriadau

# Am y ddogfen


Hawlfraint

Background

Prif ganfyddiadau

Argymhellion

Arweinyddiaeth

Darpariaeth

Dysgu ac agweddau at ddysgu

Atodiad 1 – nifer a lleoliadau canolfannau trochi iaith

Atodiad 2 – blaenoriaethau cenedlaethol

Atodiad 3 – trochi cynnar a throchi hwyr yn system addysg Cymru

Methods and evidence base

Geirfa

Cyfeiriadau

# Hawlfraint

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol

- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio dysgwyr
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

# Background

## Defnydd o'r term 'addysg drochi'

Defnyddiwyd y term 'addysg drochi' gyntaf yng Nghanada yn y 1960au yn ôl Baker a Wright (2021) sy'n cyfeirio at arbrofion addysgol a oedd yn anelu at blant i ddod yn ddwyieithog (a deuddiwylliannol) yn Saesneg a Ffrangeg. Maent yn awgrymu bod 'addysg drochi' yn derm ymbarél. Er bod pwyslais cyffredin ar gyflwyno iaith newydd (neu iaith darged), gall dulliau addysg drochi amrywio mewn sawl ffordd yn rhyngwladol. Er enghraifft, gall canran yr addysgu drwy gyfrwng yr iaith darged neu'r oedran y cyflwynir yr iaith darged fod yn wahanol.

Gall ystyried 'addysg iaith treftadaeth' fod o gymorth wrth ystyried y cyd-destun Cymreig. Yn ôl Baker a Wright (2021, t.237), mae'n derm sy'n cyfeirio at ystod eang o raglenni sy'n anelu at ddarparu cyfle i ddysgwyr ddatblygu lefel hyfedredd uwch mewn iaith leiafrifol. Mae gan 'addysg iaith treftadaeth' ffocws ar warchod ac adfywio ieithoedd lleiafrifol ac mae'n tueddu i dargedu'r rhai sydd eisoes yn siarad yr iaith honno. Noda Redknap (2006) a Lewis (2006, 2011) bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn aml yn addysgu dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith a chartrefi di-Gymraeg yn yr un dosbarth. Mae hyn yn golygu bod athroniaeth 'addysg drochi' ac 'addysg iaith treftadaeth' yn aml yn cael eu huno mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru. Hynny yw, mae addysg drochi yng Nghymru fel arfer yn gyfuniad o'r hyn a adnabuwyd yn rhyngwladol fel 'addysg drochi' ac 'addysg iaith treftadaeth'.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil ar 'Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru' ym mis Hydref 2021. Mae'n darparu gwybodaeth gefndirol defnyddiol ynglŷn a dulliau trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn 10 awdurdod lleol yng Nghymru.

Y tu allan i gylchoedd academaidd, mae'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio 'addysg drochi' yn amrywio. Yn ein hadroddiad ar gaffael y Gymraeg, rydym yn disgrifio trochi yn y Gymraeg fel a ganlyn:

> 'Mae'r dull trochi yn ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r Gymraeg fel yr unig gyfrwng addysgu a dysgu, gan ddefnyddio technegau ymarferol a

gweledol i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu geirfa a chystrawen' (Estyn, 2021, t.63)

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio addysg drochi cyfrwng Cymraeg drwy esbonio:

> ‘Mae ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Daw dysgwyr yn yr ysgolion hyn o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol, rhai o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ac eraill lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn cael proses o drochi iaith. Addysgir dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr un ystafell ddosbarth, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg gartref ai peidio. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o ysgolion sy'n ymarfer trochi ledled y byd. Mae model Canada ar gyfer gweithredu trochi wedi'i ddogfennu'n eang. Mae'n dangos bod angen trochi cychwynnol am ddwy neu dair blynedd yn yr iaith darged er mwyn sicrhau bod cymhwysedd iaith plentyn yn cael ei ddatblygu’n ddigonol i ddysgu drwy’r ail iaith honno. Yna fe gyflwynir iaith arall. Dyma’r model yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru ac mae’n golygu ein bod yn addysgu'r plant hynny yn Gymraeg yn unig hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ysgol y mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'n 7 oed. Ar ôl hynny, yr ydym yn cyflwyno Saesneg fel pwnc, ac i wahanol raddau fel cyfrwng addysgu. Cymraeg yw prif iaith yr ystafell ddosbarth o hyd.’ (Llywodraeth Cymru, 2021b, t.6-7)

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod dau brif gategori o addysg drochi, y byddwn yn eu defnyddio ar gyfer gweddill yr adroddiad hwn:


> Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'addysg drochi cynnar' i gyfeirio at addysg drochi yn y cyfnod sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2021a, t.6). Mae hyn yn cynnwys profiadau dysgwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ôl eu diffiniad o ysgolion yn y categori cyfrwng Cymraeg, addysgir dysgwyr yn llawn drwy'r Gymraeg tan ddiwedd y cyfnod sylfaen yn y darparwyr hyn. Byddwn yn defnyddio’r term **‘trochi cynnar’** ar gyfer gweddill yr adroddiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'addysg drochi hwyr' i gyfeirio at addysg drochi sy'n targedu 'hwyrddyfodiaid' (neu 'newydd-ddyfodiaid') i addysg cyfrwng Cymraeg (er eu bod yn cydnabod bod academyddion yn defnyddio termau ychwanegol fel 'addysg drochi canolig') (Llywodraeth Cymru, 2021a, t.3-4). Maent yn diffinio 'hwyrddyfodiaid' fel 'plant (sy'n 7 oed neu drosodd) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen. Byddwn yn defnyddio'r term **'trochi** .

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried 'trochi cynnar' mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog. Wrth ystyried 'trochi hwyr', mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi dysgwyr 7-11 oed. Gellir cynnig cymorth o'r fath mewn ysgolion cynradd, mewn canolfannau trochi iaith, neu fel rhan o raglen bontio ar y cyd ag ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio sawl term gwahanol i gyfeirio at y canolfannau hyn, gan gynnwys 'canolfan trochi iaith', 'uned iaith Gymraeg' a 'chanolfan trochi Cymraeg'. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'canolfan trochi iaith' oni bai ein bod cyfeirio at ddarparwr penodol. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth trochi hwyr yng nghyfnod allweddol 3, fodd bynnag ni wnaethom ymweld ag ysgolion uwchradd fel rhan o'r adolygiad thematig yma.

O'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae 10 yn cynnal canolfannau trochi iaith i ddarparu rhaglen 'trochi hwyr' dwys i hwyrddyfodiaid. Yn y 10 awdurdod sy'n cynnal canolfannau trochi iaith, mae cyfanswm o 21 canolfan. Mae llawer o'r canolfannau hyn yn tueddu i fod yn yr awdurdodau lleol sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg, ac mewn rhai o'r awdurdodau mae addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn fwy cyffredin nag addysg cyfrwng Saesneg. Maent yn aml wedi'u lleoli mewn ysgolion 'lletyol' (host) ond maent yn rhan o ddarpariaeth y gwasanaeth addysg llywodraeth leol. Gweler atodiad 1 am restr o ganolfannau trochi iaith Cymru yn nhymor yr hydref, 2021. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ariannu canolfannau trochi iaith mewn nifer o awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd heb y ddarpariaeth[TR1] .

## Ffigur 1: Lleoliad canolfannau trochi iaith yng Nghymru




# National priorities

**Blaenoriaethau cenedlaethol**

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, 2013

Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015

Dyfodol Profiadau: Adolygu Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Donaldson, 2015)

'Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr' (Llywodraeth Cymru, 2017b)
'Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu medrau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.' (Llywodraeth Cymru, 2017b, t.21)

'Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026' (Llywodraeth Cymru, 2021c)

'Cenhadaeth ein cenedl' (Llywodraeth Cymru, 2017a)

Caffael yr Iaith Gymraeg (Estyn 2021)

Mae addysg drochi yn cydblethu gyda nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae atodiad 2 yn egluro perthnasedd y ddogfennaeth canlynol i'r maes addysg drochi.

- Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, 2013
- Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015
- Dyfodol Profiadau: Adolygu Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Donaldson, 2015)
- 'Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr' (Llywodraeth Cymru, 2017b) 'Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu medrau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.' (Llywodraeth Cymru, 2017b, t.21)
- 'Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026' (Llywodraeth Cymru, 2021c)
- 'Cenhadaeth ein cenedl' (Llywodraeth Cymru, 2017a)
- Caffael yr Iaith Gymraeg (Estyn 2021)

Yn ystod y cyfnod y gwnaethom gysylltu ag awdurdodau lleol, sef tymor yr Hydref 2021, roedd bron pob un ohonynt yn gweithio tuag ar baratoi neu eisoes yn ymgynghori ar gynnwys eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd. O ganlyniad, mae llawer o awdurdodau wedi diwygio eu gweledigaeth ar gyfer addysg drochi Cymraeg yn ddiweddar ac roeddent yn parhau i addasu eu cynlluniau yng ngoleuni adborth o'r ymgynghoriadau.

# Prif ganfyddiadau

## Arweinyddiaeth

1. Addysg drochi yw prif ddull bron bob awdurdod lleol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr. Mae arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog, a chanolfannau trochi iaith yn blaenoriaethu addysg drochi yn effeithiol. Maent yn darparu profiadau cyfoethog i ddysgwyr mewn amgylchedd dysgu gynhwysol a Chymreig. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y ddarpariaeth, y cartref a'r gymuned.

2. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn cynllunio strategaethau addas er mwyn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio dulliau trochi cynnar fel rhan annatod o ddarpariaeth y cyfnod sylfaen. Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn cefnogi hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Gymraeg mewn canolfannau trochi. Yn yr arferion gorau, caiff trafnidiaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r canolfannau hyn ei gyllido a'i drefnu gan yr awdurdodau. Gan fod y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid mor anghyson ledled Cymru, nid yw pob dysgwr yn cael yr un cyfleon i gael mynediad yn ddigon buan at addysg cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd, mae llawer o awdurdodau yn darparu gwybodaeth addas am addysg drochi i rieni/gofalwyr.

3. Mae gan lawer o awdurdodau lleol drefniadau priodol ar gyfer hunanwerthuso a gwella darpariaeth trochi cynnar a throchi hwyr. Mewn ychydig o awdurdodau, mae'r prosesau ar gyfer gwerthuso a phennu nodau gwella yn aneglur. Yn yr arferion gorau, mae awdurdodau a chonsortia rhanbarthol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o athroniaeth a dulliau trochi, a rhannu arfer effeithiol. Nid yw'r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith digon cyson ar wella darpariaeth er mwyn cefnogi dysgwyr i gaffael medrau Cymraeg trwy'r broses drochi.

## Darpariaeth

1. Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol trwy greu amgylchedd dysgu cynhaliol. Mae ymarferwyr yn cynnal dysgwyr i deimlo'n gynyddol hyderus i roi cynnig ar siarad Cymraeg heb ofn methu. Yn yr

achosion cryfaf, maent yn darparu amrywiaeth o brofiadau sy’n cofleidio’r dysgwyr yn y Gymraeg. Lle mae’r addysgu ar ei orau, mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau gyda chyflymder sionc. Maent yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael geirfa ac ymarfer patrymau cystrawennol mewn sesiynau torfol, trwy ymateb i ymarferwyr mewn grwpiau bach, a thrwy siarad mewn parau.

2. Mae y rhan fwyaf o ymarferwyr yn meithrin a datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr fel rhan greiddiol o ddarpariaeth drochi iaith. Maent yn cefnogi dysgwyr i gaffael medrau Cymraeg trwy fodelu iaith raenus yn gyson a chydag ynganiad clir. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yr ymarferwyr yn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol yn ddigon bwriadus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau siarad.

3. Mae llawer o ymarferwyr y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau darllen cynnar dysgwyr yn effeithiol trwy gyflwyno llythrennau a’r seiniau cyfatebol mewn modd hwyliog ac aml-synhwyrol. Maent yn ysgogi diddordeb dysgwyr ifanc trwy ddarllen straeon a rhoi mynediad iddynt at ystod o ddeunyddiau addas. Mae’r ymarferwyr hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddarllen testunau sy’n gynyddol heriol wrth iddynt fagu hyder yn ystod y cyfnod trochi cynnar. Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr sy’n cefnogi hwyrddyfodiaid yn cynllunio gweithgareddau buddiol iddynt ddatblygu eu medrau darllen, er enghraifft wrth i ddysgwyr ddarllen sgriptiau.

4. Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ysgrifennu buddiol wrth i ddysgwyr ddatblygu eu medrau. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llafar dysgwyr yn llwyddiannus sydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar eu medrau ysgrifennu. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleodd buddiol i ddysgwyr fewnoli’r Gymraeg cyn iddynt roi cynnig ar ysgrifennu.

5. Mae’r ddarpariaeth drochi hwyr fwyaf effeithiol yn cael ei chynnig trwy gyfrwng rhaglenni dwys. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn meithrin medrau Cymraeg dysgwyr mewn grwpiau bach am ran fwyaf o’r amser am gyfnod estynedig. Mae rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn darparu rhaglenni trochi hynod lwyddiannus sy’n ysgogi dysgwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r holl adnoddau sy’n cael eu defnyddio yn adlewyrchu a dathlu’r amrywiaeth sy’n bodoli yn y Gymru fodern. At ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus a hyfedr eu medrau Cymraeg ar ddiwedd y rhaglenni.

# Dysgu ac agweddau at ddysgu

1. Mae bron bob dysgwr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu'r Gymraeg yn ystod y broses addysg drochi. Maent yn cymryd rhan mewn sesiynau yn frwdfrydig, ac yn ymfalchïo yn y cynnydd â wnânt wrth ddatblygu hyder i siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau siarad Cymraeg yn y dosbarth a thu hwnt, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn gemau buarth. Trwy hyn, maent yn dod yn siaradwyr gweithredol ac yn llwyddo i gymhwyso eu medrau yn fwyfwy annibynnol.

2. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn caffael medrau Cymraeg yn llwyddiannus trwy'r broses drochi cynnar. Maent yn meithrin eu medrau gwrando a siarad trwy adeiladu'n gyflym ar adnabyddiaeth o eiriau allweddol. Yn dilyn cefnogaeth drochi gyson, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau siarad Cymraeg gydag oedolion a chyfoedion gyda hyder cynyddol. Maent yn datblygu medrau darllen yn fedrus, ac yn ei dro maent datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol gan ddwyn i gof geirfa a phatrymau cystrawennol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda ac mae hyn yn eu cefnogi i wneud cynnydd pellach ar draws y meysydd dysgu yng nghyfnod allweddol 2.

3. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni trochi hwyr dwys yn cyrraedd lefel hyfedredd addas er mwyn llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn canolfannau trochi iaith yn datblygu medrau gwrando a siarad yn gyson dda. Gwnânt gynnydd cyson yn eu medrau darllen ac erbyn diwedd y rhaglenni trochi hwyr dwys mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa cyfarwydd. Yn yr achosion hynny lle darperir cefnogaeth i hwyrddyfodiaid trwy drefniadau amgen yn yr ysgol, mae mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol.

# Argymhellion

**Dylai lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion:**

A1 adeiladu ar arfer effeithiol a chynllunio ystod o weithgareddau cyson sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael geirfa a phatrymau cystrawennol yn fwriadus a chydlynus

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A2 gynllunio'n fwriadus i sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr gael mynediad at ddarpariaeth drochi cynnar a throchi hwyr

A3 gwerthuso darpariaeth drochi yn drwyadl, gan gynnwys olrhain cynnydd hwyrddyfodiaid yn gyson dros amser

A4 cryfhau a chysoni'r arlwy ddysgu broffesiynol am athroniaeth a dulliau addysg drochi ar gyfer pob ymarferydd

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar drochi cynnar a throchi hwyr, a chomisiynu ystod o adnoddau addas ar gyfer dysgwyr o bob oed i gefnogi addysg drochi sy'n dathlu amrywiaeth Cymru

A6 sefydlu fforwm cenedlaethol i hyrwyddo arferion mwyaf effeithiol addysg drochi, gan gynnwys hyrwyddo trefniadau lleol i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol

# Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth mewn awdurdodau lleol a rhanbarthau




Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gynlluniau priodol i gryfhau eu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, gyda llawer yn cyfeirio at addysg drochi yn benodol. Mae mwyafrif y swyddogion yn siarad gyda brwdfrydedd am eu cynlluniau arfaethedig i gryfhau'r Gymraeg mewn addysg, er enghraifft trwy ddisgrifio cynnwys eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft a'r defnydd arfaethedig o'r arian adfer COVID-19 sydd ar gael i gefnogi trochi hwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i adrodd yn gynhwysfawr ar y cynlluniau a'u heffaith. Yn yr achosion lle maent yn cynnig gweledigaeth gadarn ar gyfer y defnydd o addysg drochi, mae hyn yn bennaf yn cyfeirio at gryfhau prosesau trochi cynnar sydd eisoes yn gadarn, ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau nas cynhelir a chynradd, neu sefydlu canolfannau trochi iaith i gefnogi hwyrddyfodiaid. Lle mae awdurdodau yn cynllunio ar gyfer sefydlu canolfannau trochi iaith newydd, ar y cyfan, mae'r trefniadau ar gam cynnar iawn. Caiff cyllideb gan Lywodraeth Cymru i gefnogi y Gymraeg mewn addysg ei ddyrannu i awdurdodau fel rhan o'r Grant Gwella Addysg.

Mae gan ychydig o awdurdodau lleol bolisi iaith lle mae pob ysgol gynradd yn trochi dysgwyr yn y Gymraeg hyd at ddiwedd y cyfnod sylfaen. Yn yr achosion hyn, mae’r disgwyliadau o ran addysg drochi yn gadarn.

Mae gan awdurdodau lleol ddulliau gwahanol o gefnogi hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg drwy ddarpariaeth drochi hwyr. Lle mae awdurdodau'n cynnal canolfannau trochi iaith ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyrach yn eu gyrfa ysgol, mae eu trefniadau’n amrywio. Mae gan rai awdurdodau un canolfan y gall bob ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei defnyddio, tra bod gan eraill ganolfannau trochi iaith wedi’u sefydlu ar safleoedd ysgolion gwahanol. Mae gan ychydig iawn o awdurdodau gyfundrefn ddeuol, lle mae canolfan trochi iaith ar gael mewn ardal benodol, tra bod gweddill yr ysgolion yn cefnogi hwyrddyfodiaid o fewn lleoliadau eu hunain. At ei gilydd, mae darpariaeth addysg drochi hwyr ar ei orau pan mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg trwy raglen ddwys a strwythuredig, fel arfer wrth i ddysgwyr fynychu canolfan trochi iaith. O ganlyniad i’r ddarpariaeth anghyson ledled Cymru, nid yw pob dysgwr yn derbyn yr un cyfleoedd i gaffael medrau Cymraeg yn ddigon buan wrth drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyrach yn eu gyrfa ysgol.

**Cameo – gwireddu gweledigaeth trwy gynllunio’n strategol i sefydlu Canolfan Iaith Gymraeg**

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi agor Canolfan Iaith Gymraeg newydd yn sgil ail fodelu bwriadus ar draws yr awdurdod. Penderfynwyd gwneud defnydd o adeilad gwag ar safle Ysgol Glan Clwyd, sef ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir. Fel rhan o’r weledigaeth, cydweithiodd partneriaid allweddol yn gyson i ddatblygu cynlluniau er mwyn sefydlu darpariaeth ar gyfer hybu medrau Cymraeg dysgwyr o bob oed.

O fewn y Ganolfan Iaith Gymraeg newydd, mae cylch meithrin wedi’i sefydlu. Trwy drefniant gyda’r Mudiad Meithrin, mae dysgwyr ôl 16 Ysgol Glan Clwyd yn derbyn cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr wrth iddynt gefnogi dysgwyr ifanc ar y safle.

Mae darpariaeth i gefnogi hwyrddyfodiaid cyfnod allweddol 2 trwy raglen drochi ddwys yn cael ei chynnig yn y ganolfan. Yn ogystal, mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi hwyrddyfodiaid Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8

Ysgol Glan Clwyd yn y ganolfan.

Trwy drefniant gyda Phrifysgol Bangor, caiff cyrsiau sabothol ar gyfer y Gymraeg eu darparu yn y ganolfan. Mae canolfan adnoddau ar gyfer hyrwyddo’r Gymraeg wedi ei lleoli ar y safle hefyd, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau diweddaraf yn hygyrch i athrawon yr awdurdod.

Trwy ddatblygu’r weledigaeth mewn cynlluniau bwriadus, Mae’r awdurdod yn defnyddio’r ganolfan fel cyrchfan i ddarparu ystod gyfoethog o gyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ddatblygu eu medrau Cymraeg. Dengys hyn bod holl bartneriaid yr awdurdod yn blaenoriaethu’r Gymraeg yn briodol ac wedi cydweithio’n llwyddiannus er mwyn gwireddu eu gweledigaeth.

Mewn canolfannau trochi iaith, yn y rhan fwyaf o achosion mae'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd yn cael ei harwain gan ymarferydd sydd â chyfrifoldeb arweiniol penodol, gyda chymorth athrawon eraill neu gynorthwywyr dysgu. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau rheoli yn amrywio'n sylweddol o’r naill awdurdod lleol i'r llall. Er enghraifft, mae un awdurdod yn dirprwyo'r cyfrifoldeb rheoli’r ganolfan drochi iaith i bennaeth yr ysgol letyol. Maent yn gyfrifol am bron bob agwedd o’r ganolfan, gan gynnwys rheoli'r gyllideb a darparu cefnogaeth adnoddau dynol, fel bo’n briodol. Mewn awdurdod arall, mae athrawon arweiniol yn adrodd yn uniongyrchol i swyddogion addysg sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o’r ddarpariaeth. Mewn awdurdod arall eto, rheolir yr athro arweiniol gan gydgysylltydd tîm ymgynghorol y Gymraeg yr awdurdod, sydd hefyd yn darparu gwasanaethau eraill i ysgolion fel cymorth cyn-ganolfan ac ôl-ofal. Ar y cyfan, nid yw prosesau rheoli’n ddigon cadarn gan eu bod yn aml wedi esblygu dros amser, er enghraifft wrth i'r galw am addysg drochi gynyddu.

Mewn ychydig o ganolfannau trochi iaith, mae arweinwyr yn mireinio eu darpariaeth yn sgil prosesau hunanwerthuso yn briodol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn datblygu adnoddau sy’n ennyn a chynnal diddordeb bechgyn yn ogystal a merched er mwyn eu cefnogi wrth iddynt gael eu trochi yn y Gymraeg. Yn yr arfer orau, mae penaethiaid yn arsylwi sesiynau ar y cyd gydag arweinwyr canolfannau iaith yn rheolaidd gan efelychu arddull ac amserlen hunanwerthuso yr ysgol letyol. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn ymddiried mewn arbenigedd a phrofiad yr ymarferwyr yn y canolfannau trochi iaith. Mewn llawer o awdurdodau,

mae’r trefniadau ar gyfer hunanwerthuso’r ddarpariaeth mewn canolfannau trochi iaith yn rhy anffurfiol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn ddigon bwriadus nac yn gosod nodau gweithredu addas ar gyfer gwella'r addysgu a dysgu yn ddigon trylwyr.

At ei gilydd, mae gan awdurdodau lleol weithdrefnau gwahanol wrth dderbyn hwyrddyfodiaid i ganolfannau trochi iaith. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn cynnig llefydd i ddysgwyr cyfnod allweddol 2, gydag ychydig yn cynnig darpariaeth o Flwyddyn 1 ymlaen. Mae’r rhan fwyaf yn darparu mynediad cyson ar ddechrau cyfnod penodol o’r rhaglen yn unig, sydd gan amlaf ar ddechrau tymor newydd, gydag ychydig yn rhoi mynediad i ddysgwyr yn hwyrach yn y tymor sy’n golygu eu bod yn ymuno ar ôl i ddysgwr eraill ddechrau’r rhaglen. At ei gilydd, mae hwyrddyfodiaid yn caffael y Gymraeg yn gyflymach wrth gael mynediad diymdroi at ddarpariaeth mewn canolfannau trochi iaith. Fodd bynnag, mae hyn yn amharu ar lif a dilyniant y rhaglenni sydd yn ei tro yn cael effaith ar gynnydd dysgwyr sydd wedi mynychu ers dechrau’r tymor.

Mae bron bob awdurdod lleol sydd â chanolfan trochi iaith yn ariannu a threfnu trafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy’n mynychu’r ganolfan. Mae arweinwyr yn nodi’n glir bod hyn yn ystyriaeth bwysig er mwyn sicrhau ymrwymiad rhieni/gofalwyr i ddewis addysg Gymraeg, a llwyddiant y broses drochi ar gyfer eu plant. Mae ychydig iawn o awdurdodau yn darparu gwasanaeth i awdurdodau cyfagos trwy drefniant, sy’n caniatáu i ddysgwyr gael mynediad at ddarpariaeth mewn canolfannau trochi iaith.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn cyfeirio at y canolfannau trochi iaith mewn llyfrynnau mynediad yn briodol. At ei gilydd, nid ydynt yn hyrwyddo neu hybu’r ddarpariaeth yn benodol, a phrin yw’r wybodaeth i rieni/gofalwyr am fanteision dwyieithrwydd ac athroniaeth trochi, yn gyffredinol. Mewn llawer o awdurdodau ble mae cynnydd am y galw yn y ddarpariaeth, nid yw’r awdurdodau hynny yn blaengynllunio’n ddigon bwriadus i ddiwallu dyheadau rhieni/gofalwyr. O ganlyniad, mae’r cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth trochi hwyr yn dueddol o fod yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol.

**Cameo – awdurdod yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid eraill**

Mae Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg Cyngor Sir Gâr yn darparu gwybodaeth fuddiol am addysg drochi trwy wefan berthnasol. Maent yn paratoi clipiau fideo i hybu addysg cyfrwng Cymraeg i rieni/gofalwyr ac cynnig cymorth i'r sawl sydd ddim yn siarad Cymraeg. Er enghraifft, mewn un clip, maent yn cynnig gweithgareddau posibl ar gyfer rhieni a'u plant, fel ymweld â siop lyfrau Gymraeg neu wylio rhaglenni teledu Cymraeg. Mewn clip arall, maent yn egluro enwau llefydd Cymraeg yn yr ardal. Maent yn darparu cyfres o gyflwyniadau deniadol sy'n egluro manteision dwyieithrwydd ac yn ymateb i gwestiynau cyffredin rhieni/gofalwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae adran arall o'r wefan yn cynnig adnoddau defnyddiol ar gyfer athrawon. Er enghraifft, ceir cyfres o gemau bwrdd i atgyfnerthu geirfa, gemau digidol a chyfarwyddiadau ar gyfer gemau buarth. Mae adran arall yn cynnwys cyfres o fonologau gan actorion sy'n chwarae rhan cymeriadau hanesyddol yr ardal fel sbardun apelgar wrth gyflwyno straeon lleol i ddysgwyr. Yn ogystal, ceir fideos sy'n darparu gwybodaeth fuddiol, er enghraifft trwy amlygu arfer effeithiol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg dysgwyr.

Wrth rannu gwybodaeth gyda rhieni/gofalwyr, mae'r awdurdod yn cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol am raglenni sy'n cael eu darparu gan y canolfannau trochi iaith. Yn ogystal, maent yn cyflwyno deunyddiau buddiol am addysg cyfrwng Cymraeg mewn clipiau defnyddiol sy'n cynnwys cyfraniadau gan rieni/gofalwyr eraill sydd eisoes wedi manteisio ar y ddarpariaeth ar gyfer eu plant.

Mewn tua hanner yr awdurdodau lleol, ceir athrawon ymgynghorol sy'n cefnogi gwaith eu canolfannau trochi iaith. Yn yr arfer orau, maent yn cynnig gwasanaeth gynhwysfawr i ddysgwyr, er enghraifft darpariaeth cyn ganolfan ac ôl-ofal. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ac adnoddau defnyddiol ar gyfer ymarferwyr. At ei gilydd, mae'r gefnogaeth hon yn cynnig darpariaeth gyson ar draws yr awdurdod i ddysgwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd.

Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cynnig rhaglenni trochi gwerthfawr ar ddechrau Blwyddyn 7 ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg am y tro cyntaf ar ddechrau eu haddysg uwchradd. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn mynychu'r ysgol uwchradd newydd am gyfnod o thua hanner tymor cyn gwyliau'r haf i dderbyn gwersi Cymraeg a phrofiadau ar draws y

meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae dysgwyr yn magu hyder i siarad Cymraeg gyda'u cyfoedion newydd mewn amgylchedd dysgu Cymraeg a Chymreig.

Mae rhai awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid ar gyfer darpariaeth addysg drochi hwyr yn uniongyrchol i'w hysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog. Prif nod y dull hwn yw caniatáu i'r ysgolion hynny gyflogi staff cymorth ychwanegol i gynorthwyo hwyrddyfodiaid i integreiddio i'w hamgylchedd dysgu Cymraeg newydd. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae ysgolion yn cydweithio'n agos gyda'r awdurdod i gyflwyno rhaglen ddwys ar gyfer hwyrddyfodiaid. Fodd bynnag, lle mae dulliau gweithredu'n llai bwriadus, nid oes gan ddysgwyr fynediad at gymorth cyson neu systematig wrth gaffael medrau Cymraeg newydd. Mae hyn yn llesteirio eu cynnydd a'u gallu i gael mynediad at brofiadau addas ar draws y meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan ychydig iawn o awdurdodau lleol drefniadau peripatetig i gefnogi hwyrddyfodiaid. Fel arfer, mae trefniadau peripatetig yn darparu profiadau buddiol i ddysgwyr mewn sesiynau unigol neu grwpiau bach am gyfran fechan o'r wythnos. Mewn ychydig o achosion, gall hyn fod cyn lleied â 45 munud yr wythnos. O ganlyniad, nid yw'r dull hwn yn cefnogi'r dysgwyr i gael eu trochi yn y Gymraeg yn ddigon effeithiol mewn cyfnod byr. Yn ogystal, nid yw'n darparu cyfleoedd digon cyson iddynt fagu hyder i siarad Cymraeg yn fwyfwy digymell gyda'u cyfoedion ac ymarferwyr.

Mae ychydig o awdurdodau lleol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol yn rheolaidd i ymarferwyr i gefnogi a datblygu addysg drochi. Er enghraifft, mae swyddog addysg mewn un awdurdod yn darparu hyfforddiant i athrawon newydd gymhwyso am y polisi iaith a'r athroniaeth drochi. Mae awdurdod arall yn defnyddio gwasanaeth a ddarperir gan y tîm ymgynghorol y Gymraeg yn effeithiol i fodelu dulliau trochi mewn dosbarthiadau prif lif er mwyn i ymarferwyr efelychu'r arferion effeithiol hyn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn rhannu eu harferion yn effeithiol gydag ymarferwyr mewn ysgolion. Er enghraifft, maent yn cydweithio gyda'r consortia lleol i rannu gwybodaeth am waith ymchwil rhyngwladol am ddulliau trochi iaith. Trwy hyn, mae ymarferwyr yn dwysau eu dealltwriaeth am ddulliau trochi effeithiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgwyr wrth gaffael medrau Cymraeg. Ar y cyfan, prin yw'r esiamplau lle ceir cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd am drochi iaith fel rhan o strategaeth awdurdod neu ranbarth. O ganlyniad, er bod ychydig o ymarferwyr yn cael budd o'r cyfleoedd hyn, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd cyson i arfogi gweddill yr ymarferwyr

wrth iddynt ddatblygu eu harferion trochi.

**Cameo – defnyddio ymchwil rhyngwladol i gryfhau'r ddarpariaeth trochi hwyr**

Mae ymarferwyr yn Uned Drochi Iaith Caerdydd yn myfyrio ar ymchwil rhyngwladol er mwyn mireinio'r ddarpariaeth a'u dulliau trochi. Fel rhan o'u dysgu proffesiynol maent wedi adnabod athroniaeth drochi effeithiol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ddulliau addysgu yr ymarferwyr wrth iddynt gefnogi dysgwyr gyda'u medrau Cymraeg.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o agweddau o'r athroniaeth 'dadawgrymeg' (Lozanov, 2005). Mae hyn yn cynnwys creu amgylchedd bositif lle mae'r dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn mwynhau dysgu. Maent yn cyflawni hyn trwy nifer o strategaethau gwahanol gan gynnwys creu mannau dysgu deniadol gyda phosteri sy'n amlinellu geirfa a phatrymau cystrawennol Cymraeg. Maent yn newid y posteri yn amserol er mwyn iddynt fod mor ddefnyddiol â phosibl i'r dysgwyr. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i ymgolli eu hunain mewn cymeriad gwahanol wrth siarad Cymraeg, er enghraifft trwy actio rhan tad-cu yn deillio o straeon y rhaglen ddwys.

Mae ymarferwyr hefyd yn defnyddio agweddau o'r dull 'ymateb corfforol llwyr' (Asher, 1969) yn gyson trwy ddefnyddio symudiadau i gyd-fynd a geiriau allweddol wrth iddynt siarad. Pan gyflwynir geirfa newydd i ddysgwyr, mae ymarferwyr yn eu hannog i'w hefelychu trwy wneud symudiadau tebyg. Mae'r ymarferwyr yn parhau i ddefnyddio'r symudiadau trwy gydol y rhaglen er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth y dysgwyr.

Yn dilyn cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr, mae gan ymarferwyr yr wybodaeth broffesiynol angenrheidiol i gefnogi dysgwyr yn hynod effeithiol wrth i ymchwil rhyngwladol fod yn sylfaen cadarn i'w dulliau trochi.

Mae bron bob un o'r awdurdodau lleol sydd yn cynnal canolfannau trochi iaith yn eu lleoli ar dir ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar yr ysgol letyol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yr ysgolion hynny yn derbyn cyfleodd buddiol i arsylwi sesiynau gan athrawon arbenigol y canolfannau trochi iaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr canolfannau trochi iaith yn arwain ar gynlluniau cyflwyno iaith ar draws ysgolion y clwstwr. Er enghraifft, maent yn cydweithio gydag ymarferwyr ysgolion i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol wrth i ddysgwyr ryngweithio yn yr ardal tu allan. Trwy gydweithio cyson, caiff hyn effaith cadarnhaol ar fedrau Cymraeg dysgwyr gan sicrhau cysondeb mewn profiadau dysgu ar draws y clwstwr.

**Cameo – defnyddio arbenigedd ymarferwyr canolfannau trochi iaith i ledaenu arfer effeithiol**

Mae ymarferwyr Canolfan Iaith Môn yn cefnogi ysgolion drwy gynnig, arweiniad, arbenigeddau ieithyddol ac adnoddau. Mae hyn yn arfogi athrawon gyda'r medrau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt wrth drochi dysgwyr yn effeithiol yn y Gymraeg.

Mae ymarferwyr yn arwain ar gyfleoedd dysgu proffesiynol mewn ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwr Saesneg. Er enghraifft, yn nalgylch Caergybi maent wedi cefnogi ymarferwyr mewn ysgolion i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol briodol yn gyson trwy'r clwstwr. Mae ymarferwyr yn cynnig arweiniad ar sut i gefnogi medrau Cymraeg dysgwyr trwy weithgareddau yn yr ardal tu allan. Er enghraifft, maent yn cydweithio gydag athrawon y clwstwr i greu matiau iaith yn seiliedig ar eirfa byd natur a bywyd gwyllt, a themâu cyffredin arall. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar safonau ieithyddol llawer o ddysgwyr.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi datblygu'r gefnogaeth ymhellach er mwyn rhannu arferion effeithiol ar draws yr awdurdod. Maent yn rhannu clipiau digidol byr yn cyflwyno dulliau a syniadau ar addysgeg drochi bwriadus i'r ymarferwyr mewn ysgolion. Er enghraifft, trwy gynnig syniadau am y defnydd o iaith wrth gofrestru a sut i ateb cwestiynau gan ddewis yn gywir o'r gwahanol ffyrdd o ddweud ia a na. Mae'r clipiau yn cyfeirio at adnoddau i gefnogi'r dysgu sydd eisoes ar gael ar eu cyfer fel

matiau iaith penodol.

Mae ymarferwyr Canolfan Iaith Môn yn darparu gwybodaeth a chyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth athrawon newydd gymhwyso o ddulliau trochi effeithiol. Mae'r athrawon hyn yn derbyn cyfleoedd buddiol i ymweld â'r ganolfan ac arsylwi'r dulliau hyn ar waith ac yn derbyn pecyn o adnoddau defnyddiol.

Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan ymarferwyr yn y ganolfan trochi iaith yn cyfrannu'n fuddiol at gysoni arferion trochi iaith effeithiol trwy'r awdurdod.

Mae llawer o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith neu dimau ymgynghorol y Gymraeg yn creu cysylltiadau anffurfiol addas gyda chydweithwyr er mwyn rhannu arferion effeithiol ac adnoddau addysg drochi. Mae lleiafrif yn mireinio eu hymarfer yn fuddiol wrth drafod a chymharu dulliau trochi gydag arbenigwyr mewn awdurdodau lleol eraill. Er bod y cyfleoedd hyn yn fanteisiol wrth i ymarferwyr ddatblygu eu dulliau trochi iaith ymhellach, nid yw hyn yn darparu cyfleoedd cyson i ymarferwyr ar draws bob awdurdod. At ei gilydd, mae cyfleoedd i ymarferwyr arbenigol ddylanwadu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth drochi yn genedlaethol, a rhannu arferion ac adnoddau yn brin.

Mae rôl consortia rhanbarthol wrth gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion am addysg drochi yn amrywio. Yn gyffredinol, awdurdodau sy'n arwain yn strategol ar gynllunio darpariaeth addysg drochi, a chyda consortia yn cefnogi'r broses i raddau gwahanol.  Mae'r amrywiaeth hon yn cyfrannu at ddarlun cymysglyd o ran cefnogi cynllunio strategol ar gyfer datblygu darpariaeth addysg drochi ar lefel genedlaethol. Yn ogystal, dengys hyn nad yw addysg drochi bob tro yn cael ei flaenoriaethu'n ddigonol gan awdurdodau a chonsortia gan ystyried ei fod y prif ddull cenedlaethol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd.

Lle mae cydweithio ar ei orau, mae awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol yn hyrwyddo addysg drochi ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gyfer datblygu dulliau addysg drochi. Er enghraifft, mae un consortiwm rhanbarthol yn gweithio gydag awdurdodau yn llwyddiannus i adnabod a sefydlu 'egin ganolfannau', sef darpariaeth gychwynnol sydd yn cael eu lleoli mewn

ysgolion fel cam cyntaf o broses hirdymor i hyrwyddo trochi Cymraeg. Mae consortiwm arall yn trefnu cefnogaeth gan ysgolion eraill yn y rhanbarth i hyrwyddo arferion effeithiol neu drwy ddarparu sesiynau dysgu o bell i athrawon newydd gymhwyso.

**Cameo – rhannu arferion trochi iaith yn rhanbarthol**

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi comisiynu staff o Uned Drochi Iaith Caerdydd i gydweithio gyda swyddogion Cymraeg y consortiwm ar greu pecyn o adnoddau trochi. Mae'r adnoddau yn cynnig arweiniad buddiol i ysgolion nad oes ganddynt fynediad i ganolfan drochi iaith o fewn eu hawdurdod lleol. Mae'r pecyn yn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol penodol yn eu tro er mwyn gwella'r cysondeb yn yr addysgu.

Mae'r adnoddau yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddefnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol yn ddyddiol mewn sefyllfaoedd chwarae rôl, sesiynau drama, neu mewn cyd-destun chwarae gêm. Mae'r gweithgareddau darllen ac ysgrifennu yn canolbwyntio ar yr un patrymau. Mae'r iaith yn cael ei fodelu mewn clipiau sain defnyddiol i gefnogi ymarferwyr llai hyderus.

Ceir pecyn o gardiau lliwgar yn cynnwys y geirfa a phatrymau cystrawennol yn ôl themâu gan gynnwys cardiau cwestiwn ac ateb, cardiau fflach, lluniau i'w trafod, a chardiau i chwarae gemau llafar. Er enghraifft, mae un uned o waith yn ymwneud â'r parc. Cyflwynir geirfa fel siglen, ffrâm ddringo, coed a blodau ynghyd â chwestiynau ac ymatebion addas fel 'oes pwll tywod yn y parc?' ac 'oes, mae pwll tywod yn y parc'. Lleolir uned waith arall mewn caffi, sydd yn cynnig llawer o gyfleodd i gyflwyno geirfa mathemategol yn ymwneud ag arian, siapiau a ffracsiynau. Er enghraifft, mae dysgwyr yn archebu 'chwarter pitsa' gan dalu'r swm cywir o arian. Maent yn cyflwyno'r amser gorffennol a dyddiau'r wythnos gan ddefnyddio cyd-destun y caffi. Er enghraifft, trwy gynnig gwybodaeth fel 'cefais i sglodion dydd Llun' neu 'yfais i sudd oren dydd Mercher'. O ganlyniad, mae dysgwyr yn datblygu geirfa a phatrymau mewn modd strwythuredig ac yn eu cymhwyso'n fwyfwy llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu.

Yn yr arfer orau, mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu prosesau hunanwerthuso i adnabod lle mae angen cryfhau darpariaeth addysg drochi ac yn blaenoriaethu datblygiadau'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn adnabod grwpiau o ddysgwyr sydd ddim yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod sylfaen ac yn trefnu bod aelodau tîm ymgynghorol y Gymraeg yn darparu cefnogaeth i ymarferwyr yn yr ysgolion hynny. Er bod y mwyafrif yn olrhain niferoedd dysgwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd o'r un cyfrwng, prin yw'r esiamplau o olrhain cynnydd hwyrddyfodiaid yn benodol. Ar y cyfan, nid yw prosesau awdurdodau ar gyfer hunanwerthuso'r ddarpariaeth addysg drochi yn ddigon trylwyr, er enghraifft wrth graffu ar arferion effeithiol neu feysydd ar gyfer gwella. Yn ogystal, nid yw gweithdrefnau hunanwerthuso yn esgor ar wybodaeth digon penodol am werth am arian y ddarpariaeth.

# Arweinyddiaeth mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd

Mae y rhan fwyaf o arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gweithredu polisïau ieithyddol disgwyliedig eu hawdurdodau lleol yn briodol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn deall bod y Gymraeg yn greiddiol i'r ddarpariaeth. Cânt eu cefnogi'n briodol gan bwyllgorau lleoliadau nas cynhelir a chyrff llywodraethol ysgolion i hyrwyddo'r Gymraeg. At ei gilydd, yn y darparwyr hyn, mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n gyson mewn amgylchedd dysgu Gymreig. Mae lleiafrif o arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir yn cefnogi ymarferwyr sy'n llai hyderus yn siarad Cymraeg trwy ddefnyddio adnodd sy'n eu cynorthwyo i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol i ddysgwyr yn systematig. Yn ei dro, mae hyn yn cefnogi eu dysgu proffesiynol eu hunain.

Mae mwyafrif yr arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus i gryfhau eu darpariaeth addysg drochi ymhellach yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer yn blaenoriaethu datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr yn gyson wrth ymgorffori y

pedwar diben fel rhan annatod o’r addysgu a dysgu. Er enghraifft, maent yn cefnogi ymarferwyr y cyfnod sylfaen i gynllunio gweithgareddau trochi cyfoethog sy’n hybu’r defnydd o’r Gymraeg. Yn yr arferion cryfaf, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr wneud dewisiadau am eu dysgu tra’n parhau i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol yn fwriadus. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i ddathlu diwylliant Cymreig. O ganlyniad, maent yn cefnogi dysgwyr i fod yn gynyddol uchelgeisiol a pharod i ddysgu’n annibynnol mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Cameo – cyfuno addysg drochi â pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru**

Mae arweinwyr Ysgol Croes Atti, yn Cyngor Sir Y Fflint, wedi sefydlu cynghorau dysgu yn seiliedig ar feysydd dysgu a phrofiad er mwyn codi proffil Cwricwlwm i Gymru yn yr ysgol. Yn ystod o broses o sefydlu’r cynghorau, mae ymarferwyr yn cefnogi addysg drochi yn yr ysgol trwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymhwyso eu medrau Cymraeg gartref mewn partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr fynegi diddordeb mewn ymuno â grŵp arwain sy’n cyfrannu at ddatblygu meysydd dysgu a phrofiad penodol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae dysgwyr Blwyddyn 2 yn cyflwyno ceisiadau i ymuno â’r grŵp trwy greu cyflwyniadau adref ar ffurf fideo. Mae dysgwyr yn nodi pa grŵp sydd o ddiddordeb pennaf iddynt, er enghraifft trwy darparu cyflwyniad ar losgfynyddoedd fel cais i fod yn aelod o’r grŵp Gwyddoniaeth a Thechnoleg. O ganlyniad, roedd dysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’u medrau Cymraeg wrth baratoi’r cyflwyniad.

Mae’r dull yn cefnogi dysgwyr a’u rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru trwy cyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae’n darparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr gymhwyso medrau siarad trwy gefnogi eu profiad trochi.

Yn yr arferion gorau, mae arweinwyr yn hybu medrau Cymraeg dysgwyr trwy

gyfrwng y celfyddydau mynegiannol yn effeithiol. Maent yn adnabod pwysigrwydd blaenoriaethu medrau gwrando a siarad fel nodwedd allweddol o addysg drochi, a chreu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg trwy weithgareddau llafar. Er enghraifft, maent yn cefnogi ymarferwyr i ddarparu cyfleoedd cynhwysol i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol a'r gymuned leol. At ei gilydd, mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Cameo – cynllunio'n strategol i blethu addysg drochi gyda'r celfyddydau mynegiannol**

Mae arweinwyr Ysgol Gymraeg Caerffili, yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn cydweithio gydag ysgolion y clwstwr i gyflogi ymarferydd creadigol er mwyn codi safonau llafar Cymraeg. Mae'r ymarferydd yn defnyddio ei greadigrwydd er mwyn gwella medrau llafar dysgwyr, gan ddefnyddio caneuon i ymarfer patrymau cystrawennol mewn ffordd hwylus. Er enghraifft, gan fod dysgwyr dal yn chwarae mewn swigod yn ystod y pandemig COVID-19, mae dysgwyr Blwyddyn 5 wedi creu ffilm yn disgrifio a chwarae gemau buarth er mwyn dangos i'r dysgwyr ieuengaf. O ganlyniad, mae dysgwyr yn y cyfnod sylfaen yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ystod amser egwyl.

Mae'r cydlynydd iaith wedi nodi pa batrymau cystrawennol i dargedu gyda phob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, er mwyn targedu 'iaith chwarae', darperir sesiynau hwyliog i anfon rocedi i'r awyr, a thaflu peli sbwng at rifau gan ymarfer patrymau fel 'fy nhro i yw hi nawr!'

Mae'r ymarferydd creadigol wedi darparu detholiad o ganeuon, gweithgareddau llafar, rapiau a ffilmiau byr i gyd-fynd â themâu pob ysgol unigol o fewn y clwstwr i gefnogi athrawon i gyfoethogi Cymraeg dysgwyr. Mae dysgwyr yn datblygu hyder a hyfedredd yn y Gymraeg yn llwyddiannus trwy weithgareddau celfyddydau mynegiannol.

Mae ychydig o arweinwyr yn dechrau cefnogi ymarferwyr yn bwrpasol i

gynorthwyo cydweithwyr i fodloni'r disgwyliad a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru y dylai pob dysgwr ddatblygu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, mewn un ysgol dwy ffrwd, mae athrawon o'r ffrwd Gymraeg yn hybu ymarferion bwydo iaith mewn dosbarthiadau ffrwd Saesneg. Yn ogystal, mae dysgwyr o'r ffrwd Gymraeg yn paratoi fideos syml yn adrodd chwedlau ar gyfer dysgwyr y ffrwd Saesneg i wrando arnynt er mwyn paratoi perfformiad eu hunain. Mae ychydig iawn o arweinwyr yn cefnogi athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy rannu dulliau effeithiol o gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol Cymraeg i ddysgwyr.

Mewn lleiafrif o ysgolion mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddysgwyr datblygu eu medrau Cymraeg, Saesneg, ac ieithoedd tramor eraill mewn gweithgareddau buddiol, er enghraifft trwy gydweithio â'r ysgol uwchradd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiad hwyrddyfodiaid wrth iddynt ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hwyrddyfodiaid a'u cyfoedion gael blas ar ieithoedd tramor eraill fel rhan o'u trefniadau trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae llawer o arweinwyr yn cydweithio'n bwrpasol wrth gefnogi dysgwyr i drosglwyddo o'r naill leoliad neu gyfnod i'r llall, er enghraifft o'r lleoliad nas cynhelir i'r ysgol gynradd. Yn yr achosion cryfaf, mae arweinwyr yn annog cydweithio rhwng ymarferwyr er mwyn cynllunio dilyniant addas wrth ddatblygu medrau Cymraeg y dysgwyr. Er enghraifft, maent yn cytuno ar gynlluniau i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol yn gyson dros gyfnod. Yn rhy aml, mae'r cydweithio rhwng darparwyr yn arwynebol ac nid yw'n arwain at arferion cyffredin. O ganlyniad, nid yw dysgwyr bob amser yn gwneud cynnydd cyson wrth drosglwyddo i'r ysgol neu dosbarth newydd.

Mae gan lawer o arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion brosesau hunanwerthuso addas sydd yn ystyried safonau iaith dysgwyr a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Yn yr arferion gorau, mae arweinwyr yn gwerthuso dulliau trochi fel rhan allweddol o'r ddarpariaeth ac yn blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cyflwyno cynllun penodol wrth gefnogi ymarferwyr i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol mewn dull strwythuredig i ddysgwyr. O ganlyniad, mae ymarferwyr sydd yn siaradwyr Cymraeg llai hyderus yn modelu iaith gyda hyder cynyddol.

Mae llawer o arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni/gofalwyr am addysg cyfrwng Cymraeg wrth iddynt ddewis cyfrwng iaith addysg eu plant. Er enghraifft, mae sefydliadau nas cynhelir

yn gwneud defnydd o bamffled defnyddiol sy'n egluro athroniaeth addysg drochi i rieni, tra bod ysgolion yn dangos yr adnoddau y defnyddir i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o synau llythrennau er mwyn cefnogi medrau datblygiad medrau darllen dysgwyr.

Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i deuluoedd fod yn rhan o daith ieithyddol eu plant. Er enghraifft, maent yn gwahodd aelodau'r teulu i 'foreau coffi' i chwarae gemau bwrdd ochr yn ochr â'u plant trwy gyfrwng y Gymraeg, yn trefnu cyfleoedd iddynt ymuno a chôr cymunedol lle mae'r dysgwyr ac oedolion yn cyd-ganu, neu yn annog y 'Criw Cymraeg' i greu adnoddau defnyddiol ar eu cyfer. Wrth i ddysgwyr symud trwy'r ysgol, mae ychydig o arweinwyr yn darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr am ddulliau i'w cefnogi wrth iddynt ddatblygu a chymhwyso geirfa a phatrymau cystrawennol ar draws y meysydd dysgu. At ei gilydd, anghyson yw'r wybodaeth mae rhieni/gofalwyr yn ei dderbyn am addysg drochi yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, nid yw rhieni/gofalwyr yn dwysau eu dealltwriaeth am fuddion y Gymraeg a bod yn ddwyieithog wrth i'w plant ddilyn llwybr addysg Gymraeg.

**Cameo – cydweithio â rhieni/gofalwyr i hyrwyddo patrymau cystrawennol**

Mae Ysgol Gymraeg Y Trallwng, yn Cyngor Sir Powys, yn rhyngweithio â rhieni/gofalwyr mewn sawl ffordd, gan gynnwys anfon pamffled wythnosol adref i hyrwyddo patrymau cystrawennol penodol.

Mae ymarferwyr yn cyflwyno ystod o eirfa a phatrymau cystrawennol sydd wedi eu cynllunio'n fwriadus mewn cyd-destunau bob dydd, fel 'sut i osod bwrdd' neu 'drafod sut mae'r tywydd heddiw?'. Mae dysgwyr yn ymarfer y patrymau mewn cyfres o weithgareddau gyda'r nod o'u defnyddio yn y cartref erbyn diwedd yr wythnos. Maent yn mynd ati i ddysgu'r patrymau hyn gan ddefnyddio rhigymau cyfarwydd neu ganeuon hwyliog. Yna, mae dysgwyr yn ymarfer trwy ail adrodd y rhigwm neu'r gân yn ddigymell mewn ardal neu gornel yn y dosbarth a thu hwnt gydag annibyniaeth gynyddol. Ar ôl hynny, mae dysgwyr yn cofnodi'r patrymau cystrawennol ar ffurf sgript ac yn creu ffilm i'w ddefnyddio yn y cartref, cyn ei gyflwyno gyda'r pamffled i rieni/gofalwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr a rhieni'n defnyddio'r Gymraeg yn fwyfwy naturiol yn y cartref. Mae pob aelod o'r teulu yn clywed geirfa a phatrymau cystrawennol cywir a gallant eu

defnyddio’n gynyddol fel rhan o fywyd pob dydd.

Yn yr arferion cryfaf, mae arweinwyr yn cynnal cysylltiadau buddiol â phartneriaid allanol er mwyn annog dysgwyr y cyfnod sylfaen a hwyrddyfodiaid fel ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae arweinwyr yn hyrwyddo gweithgareddau yr Urdd fel clybiau wythnosol, eisteddfodau, a gwersylloedd preswyl. Mae ychydig yn gweithio'n agos gyda'r mentrau iaith lleol sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymhwyso eu medrau Cymraeg yn y gymuned. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cyfweld ag aelodau o'r gymuned i ddysgu am hanes lleol ac yna’n creu cyflwyniadau digidol fel rhan o’u hastudiaethau yn y maes dysgu a phrofiad dyniaethau. Yn ogystal, mae ychydig o arweinwyr yn hyrwyddo cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ymuno â grwpiau perfformio lleol sy’n annog dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg. Mae’r profiadau hyn yn cefnogi profiad trochi dysgwyr y tu allan i’r ysgol sydd yn ei dro yn dwysau eu dealltwriaeth bod y Gymraeg yn ddefnyddiol yn y gymuned.

# Darpariaeth

## Dulliau trochi cyffredinol




Mae prif nodweddion addysg drochi iaith effeithiol yn berthnasol i ddarpariaeth trochi gynnar a hwyr, fel ei gilydd. Er bod cyd-destun ac oedran y dysgwyr yn wahanol, mae egwyddorion addysg drochi effeithiol yn gyson. Er enghraifft, mae ymarferwyr effeithiol yn creu amgylchedd dysgu diogel sy’n cofleidio dysgwyr yn y Gymraeg. Maent yn blaenoriaethu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn y drefn honno ac yn rhoi pwyslais clir ar ddatblygu medrau llafar dysgwyr. Maent yn cyflwyno ac yn modelu iaith yn gywir i ddysgwyr, ac yn goslefu, ailadrodd ac yn gwneud ystumiau’n rheolaidd i’w cynorthwyo.

### Amgylchedd dysgu

Mae’r amgylchedd dysgu’n rhan bwysig o ddarpariaeth addysg drochi. Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn creu naws gartrefol lle mae dysgwyr yn teimlo’n gyfforddus ac yn barod i ddysgu. Yn yr arfer orau, maent yn fannau croesawgar a chynhwysol lle mae dysgwyr yn barod i siarad Cymraeg heb ofn methu yn fuan iawn ar ôl iddynt ddechrau yn y ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn creu mannau

deniadol sy’n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu hannog i ddefnyddio eu dychymyg wrth iddynt fagu hyder i siarad Cymraeg.

Mae ymarferwyr yn defnyddio sbardunau gweledol yn effeithiol, fel lluniau a phosteri sy’n cynnwys llythrennau a geirfa briodol. Mae llawer o ymarferwyr yn cyfeirio’n rheolaidd ar ystod o eirfa a phatrymau cystrawennol sy’n cael eu harddangos yn ddeniadol y tu mewn a’r tu allan i’r ystafell ddosbarth i gefnogi dysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol wrth ddatblygu eu medrau’n llwyddiannus.

**Cyfrwng iaith**

Ym mron pob lleoliad nas cynhelir ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog, fel rhan o ddarpariaeth drochi gynnar, Cymraeg yw’r unig iaith sy’n cael ei chyflwyno’n ffurfiol yn y cyfnod sylfaen, er bod rhai ysgolion yn dechrau cyflwyno rhywfaint o Saesneg ar ddiwedd y cyfnod hwn. Yn yr un modd, Cymraeg yw’r unig iaith sy’n cael ei defnyddio’n ffurfiol fel rhan o raglenni iaith dwys mewn canolfannau trochi iaith. Mae siarad Cymraeg â’r holl dysgwyr yn gyson yn elfen ganolog o’r broses drochi. Mae llawer o ymarferwyr yn cyfathrebu gan ddefnyddio ychydig iawn o Saesneg dim ond pan fydd angen iddynt sicrhau bod dysgwr wedi deall cyfarwyddyd neu i gysuro plentyn.

Mae lleiafrif yr ymarferwyr yn defnyddio’r dull ‘brechdan’ mewn lleoliadau ac ysgolion ar ddechrau taith ieithyddol dysgwyr, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Hynny yw, maent yn rhoi cyfarwyddyd yn y Gymraeg, yna’r Saesneg, ac yna’n ailadrodd y Gymraeg unwaith eto. Maent yn lleihau’r defnydd o’r Saesneg cyn gynted â phosibl, gan wneud hynny mewn cyfnod byr iawn. At ei gilydd, caiff dysgwyr eu trochi’n fuddiol yn yr ‘iaith darged’, sef y Gymraeg.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn modelu’r Gymraeg â chywirdeb addas ac ynganu clir. Mae ganddynt ystod gyfoethog o eirfa ac, yn yr achosion cryfaf, maent yn sgwrsio’n naturiol â dysgwyr ac yn eu cefnogi drwy gydol y sesiynau. Fodd bynnag, mae llawer o arweinwyr yn cyfeirio at anawsterau o ran recriwtio staff rhugl a chymwys yn y Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â niferoedd cymharol isel o siaradwyr Cymraeg. Mewn ychydig o achosion lle mae medrau ieithyddol ymarferwyr yn wan, nid yw dysgu’n ddigon effeithiol. Er enghraifft, nid yw dysgwyr yn clywed patrymau cystrawennol yn cael eu cyflwyno’n gywir ac yn gyson.

Mewn canolfannau trochi iaith, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn modelu iaith yn gywir, gyda llawer o ailadrodd bwriadus a chyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr glywed a siarad Cymraeg. Wrth roi cyfarwyddiadau, mae ymarferwyr yn siarad yn ofalus ac yn treulio amser yn ynganu seiniau'n glir. Maent yn gofyn i ddysgwyr ddyfalu ystyr geirfa newydd, fel 'cegin', cyn coginio, drwy ddefnyddio patrymau cystrawennol mae dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â nhw, fel "Mae'r ystafell ddosbarth yn edrych ychydig fel cegin heddiw – cegin – beth yw cegin?". Maent yn defnyddio cyfres o frawddegau byr, syml â phatrymau tebyg yn fedrus, er enghraifft wrth esbonio: "Rydyn ni yn mynd i goginio cawl llysiau", "Rydyn ni yn mynd i helpu", "Rydyn ni yn mynd i roi cyfarwyddiadau". O ganlyniad, mae dysgwyr yn magu hyder yn gyflym i efelychu ymarferwyr wrth siarad Cymraeg mewn cyd-destunau gwahanol.

### Darpariaeth ar gyfer medrau

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn darparu gweithgareddau gwrando gwerthfawr yn sail i ddatblygu gweddill medrau Cymraeg dysgwyr. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr yn mewnoli ac yn caffael geirfa'n effeithiol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, daw dysgwyr i ddeall geirfa'n ymwneud â phrif ddigwyddiadau'r diwrnod yn gyflym drwy ganu caneuon fel 'Mae'n amser twtio nawr'. Mae hyn, yn ei dro, yn meithrin eu hyder i ddatblygu eu medrau siarad yn gyflym.

Mae llawer o ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ymarfer eu medrau gwrando a siarad mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn bwydo iaith yn fwriadus drwy ganu, rapio a chyflwyno rhigymau, a thrwy 'amser cylch' neu sesiynau 'ar y mat'. Mewn lleoliadau a dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd medrus o'r sesiynau hyn i ymarfer caneuon â diben penodol, er enghraifft drwy gynnig cyfle i gyfrif i ddeg neu wrth gyflwyno rhannau o'r corff. Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol i ddarllen storïau. Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn tanio dychymyg dysgwyr drwy drafod yr hyn sydd ymhlyg yn y lluniau a'u hannog i ymuno â rhannau cyfarwydd. Mae'r ymarferwyr mwyaf effeithiol yn dramateiddio ac yn ystumio'n greadigol wrth gyfleu ystyr geiriau a chyfarwyddiadau syml.

Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol i ddysgwyr. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gofyn i ddysgwyr ymateb i gwestiynau drwy efelychu lefelau eu llais, drwy sibrwd, siarad ac yna gweiddi er mwyn creu cyffro wrth ymarfer yr iaith gyda'i gilydd. Maent yn cynnig sesiynau effeithiol mewn grwpiau bach i ddysgwyr

wrando ac ymateb yn unigol. Maent yn canu, chwarae gemau ac yn cynnig cyfleoedd iddynt chwarae rôl sydd, yn ei dro, yn atgyfnerthu'r un patrymau cyson wrth iddynt gydweithio â phartneriaid neu mewn grwpiau bach. Mae cyfleoedd rheolaidd i ymarfer geirfa a phatrymau cystrawennol mewn cyd-destunau gwahanol yn nodwedd gref o addysg drochi effeithiol.

Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio adnoddau gweledol yn effeithiol i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ymateb i gwestiynau fel 'Beth wyt ti'n hoffi?' drwy ddewis geirfa sydd wedi'i harddangos ochr yn ochr â lluniau cyfatebol, a'u cynnwys mewn ymadrodd neu frawddeg lawn. Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio teganau'n fedrus i ysgogi dysgwyr, er enghraifft drwy symud 'tedi' i leoedd gwahanol er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd ag arddodiaid. Mae dysgu ar ei orau pan fydd cyflymder sionc i sesiynau er mwyn ennyn a dal diddordeb dysgwyr, a phan roddir cyfleoedd rheolaidd iddynt gyfrannu eu hunain. Yn yr ychydig achosion lle mae cyflymder sesiynau'n rhy araf, a lle mae ymarferwyr yn defnyddio llais mwy undonog heb lwyddo i danio chwilfrydedd, nid yw dysgwyr yn ymateb ac yn datblygu eu medrau Cymraeg hyd eithaf eu gallu bob tro.

Mae llawer o ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn defnyddio cynlluniau penodol i feithrin ymwybyddiaeth dysgwyr o'r seiniau mae llythrennau gwahanol yn eu cynrychioli er mwyn caffael medrau darllen cynnar. Fel rhan o ddarpariaeth drochi gynnar, mae llawer ohonynt yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr adnabod llythyren, gwrando ar sain y lythyren, a dysgu ystumiau neu symudiadau i gyd-fynd fel proc i'r cof. Maent yn annog dysgwyr i efelychu'r symudiadau hyn ac ynganu'r sain yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn defnyddio dull tebyg i gynorthwyo'r dysgwyr hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddatblygu medrau darllen cynnar.

Yn yr arfer gryfaf, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso eu dysgu mewn ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarth er mwyn cynnig cyfleoedd iddynt ymarfer eu medrau darllen cynnar mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio labeli'n fwriadus i gyflwyno geirfa estynedig a chyfarwydd i ddysgwyr ac yn sicrhau bod ystod o lyfrau addas ar gael i ddysgwyr. Yn ystod eu hamser yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ymarferwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr ddarllen testun mwyfwy heriol. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddarllen llyfrau ffuglen a ffeithiol addas, barddoniaeth a chyfarwyddiadau syml. Mewn ysgolion lle mae safonau darllen yn gryf, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i drafod y testun yn effeithiol er mwyn cyflwyno geirfa a phatrymau

cystrawennol newydd a chadarnhau eu dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.

Mewn canolfannau trochi iaith, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ddarllen geirfa a phatrymau cystrawennol newydd, er enghraifft wrth i ddysgwyr ddarllen sgriptiau sy'n cyd-fynd ag is-thema'r wythnos honno. Mae prinder adnoddau darllen addas sydd wedi'u graddoli'n briodol â chynnwys symbylol sy'n cyfateb i oedrannau'r dysgwyr. Mewn ychydig o achosion, mae hyn yn llesteirio cynnydd dysgwyr mewn darllen wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol neu pan na allant fanteisio ar ganolfan trochi iaith.

Mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn cynnig ystod o daclau ysgrifennu fel pinnau ffelt, sialc a chreonau i ddysgwyr ddatblygu medrau echddygol mân. Maent yn nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddechrau ysgrifennu geiriau syml pan fyddant yn barod i wneud hynny, er enghraifft geiriau sy'n ymwneud â'r thema. Mewn ysgolion a chanolfannau trochi iaith, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddechrau creu brawddegau syml. Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio sgaffaldiau'n effeithiol i fodelu patrymau cystrawennol cywir. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, mae'r ymarferwyr mwyaf effeithiol yn gwybod pa bryd i leihau'r gefnogaeth drwy ddefnyddio sgaffaldiau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n rhydd ac yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ysgrifennu'n fwyfwy estynedig wrth iddynt fagu hyder yn y Gymraeg, yn aml gan ddechrau drwy efelychu geirfa a phatrymau cystrawennol o lyfrau stori neu sgriptiau. Mae hwn yn ddull trochi effeithiol wrth i ddysgwyr fewnoli'r iaith cyn iddynt ddechrau ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cyfres o frawddegau am anifeiliaid gwahanol drwy ddefnyddio brawddegau fel “Fflamingo ydw i, mae gen i goesau tenau hir a gwddf pinc”. Lle y bo'n briodol, mae ymarferwyr yn modelu ysgrifennu â sgaffald ac yn awgrymu ansoddeiriau defnyddiol eraill.

Mae llawer o ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni/gofalwyr er mwyn iddynt allu cynorthwyo eu plant gartref. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnal gweithdai i esbonio eu dull o gyflwyno medrau darllen cynnar ar ddechrau'r cyfnod sylfaen. Yn yr achosion cryfaf, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni/gofalwyr gefnogi eu plant i gaffael medrau Cymraeg drwy gydol y cyfnod trochi cynnar. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn rhannu

clipiau fideo syml sy'n dangos eu hunain yn esbonio dull mathemategol penodol, neu pan fydd mae staff yn darllen stori amser gwely y gall dysgwyr ei mwynhau gyda rhiant/gofalwr neu'n annibynnol.

### Cymhwyso medrau mewn cyd-destunau gwahanol

Mae llawer o ymarferwyr yn paratoi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau gwrando a siarad mewn ardaloedd gwahanol yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn siarad ochr yn ochr â dysgwyr ifanc ac yn cyflwyno geirfa iddynt yn naturiol. Er enghraifft, maent yn ail-greu ymweliad â fferm leol drwy 'adeiladu bws' wrth chwarae'n greadigol yn yr ardal awyr agored, ac yn manteisio ar y cyfle i siarad am yr hyn a welsant ar eu ffordd i'r fferm. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r ymarferwyr mwyaf effeithiol yn annog dysgwyr i gymhwyso geirfa a phatrymau cystrawennol penodol yn fwyfwy annibynnol. Er enghraifft, wrth i ddysgwyr gymhwyso iaith maent wedi ei chaffael o'r newydd wrth iddynt ryngweithio mewn siop trin gwallt, milfeddygfa a chuddfan natur.

**Cameo – defnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi**

Mae ymarferwyr yng Nghylch Meithrin Pontrobert yng Nghyngor Sir Powys yn annog chwarae digymell wedi'i seilio ar adnoddau sy'n ysbrydoli dysgwyr. Yn ystod sesiynau, mae ymarferwyr yn sgwrsio'n naturiol â'r dysgwyr.

Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithiol drwy ddarparu tiwbiau cardbord o feintiau gwahanol ar gyfer dysgwyr. Maent yn hwyluso dysgu'n fedrus drwy ganiatáu i'r dysgwyr wneud penderfyniadau am yr hyn yr hoffent ei wneud â'r tiwbiau. Mae ymarferwyr yn bwydo iaith yn gyson fel bod dealltwriaeth a geirfa dysgwyr yn datblygu wrth iddynt arbrofi â'r tiwbiau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn tynnu sylw dysgwyr at briodweddau'r offer fel 'caled' a 'meddal', ac yn trafod seiniau drwy daro'r offer â gwrthrychau i greu synau â thraw gwahanol.

Wrth i'r sesiwn fynd rhagddi, mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i drafod cysyniadau newydd a bwydo geirfa'n fuddiol wrth i'r dysgwyr

symud a chario'r tiwbiau. Er enghraifft, maent yn trafod cydbwyso â'r dysgwyr gan ddefnyddio iaith briodol. Pan fydd dysgwyr yn penderfynu creu offer parc gyda'r tiwbiau, fel siglen a llithren, mae'r ymarferwyr yn nodi cyfleoedd i ofyn cwestiynau fel 'Wyt ti'n meddwl y bydd hwn yn dod lawr y llithren yn gyflym?' neu 'Pa mor bell wyt ti'n meddwl yr eith hwn?'

Mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau gwrando a siarad y dysgwyr drwy gyflwyno geirfa gyfoethog newydd. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg dysgwyr yn hynod effeithiol.

Yn ddiweddarach yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif yr ymarferwyr yn cyflwyno geirfa newydd a phatrymau cystrawennol penodol yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn herio dysgwyr i ddewis cardiau â lluniau arnynt ac ymateb i gwestiynau i ymarfer 'gwelais i' a 'welais i ddim'. Mae ymarferwyr yn defnyddio dyfais recordio llais yn effeithiol fel bod dysgwyr yn clywed cyfarwyddiadau ar gyfer tasgau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddefnyddio clustffonau i wrando ar storïau'n unigol neu mewn grwpiau. O ganlyniad, mae dysgwyr yn clywed seiniau geiriau'n cael eu darllen gan lais oedolyn, sy'n cyflwyno geirfa newydd ac yn modelu patrymau cystrawennol Cymraeg cywir.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddysgwyr wrando a siarad mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, fel yn ystod amser byrbryd. Mae hyn yn cynnig cyfle i ddysgwyr ofyn am ffrwyth gwahanol neu drafod eu hoff fwydydd. Mae lleiafrif yr ymarferwyr mewn ysgolion a chanolfannau trochi iaith yn arwain gweithgareddau chwarae ar y buarth yn ystod amser chwarae. Trwy arwain gemau hwyliog, gyda dysgwyr o oedrannau gwahanol yn ymuno â'r chwarae, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd gwerthfawr i siarad Cymraeg. Mae ychydig o ymarferwyr hefyd yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddysgwyr siarad Cymraeg dros ginio, er enghraifft drwy osod 'cwestiwn y dydd', fel 'Beth yw eich hoff raglen deledu?' i hybu trafodaeth.

Mae llawer o ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr glywed a siarad Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. Er enghraifft, maent yn gwahodd cymeriadau adnabyddus o lyfrau stori a'r teledu i ddod i siarad a chwarae gemau

gyda'r dysgwyr, neu'n trefnu i actorion ymweld â'r ddarpariaeth i chwarae rôl pobl enwog sy'n gysylltiedig â'r thema. Mae llawer ohonynt yn cynnig gweithgareddau trochi gwerthfawr y tu allan i oriau ysgol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft drwy gynnal adran yr Urdd neu weithio gyda mentrau iaith. O ganlyniad, mae dysgwyr yn mwynhau siarad Cymraeg at ddibenion gwahanol, fel cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, chwarae gemau a phosau, a thrwy ymarfer i berfformio mewn gwyliau ac eisteddfodau.

**Cameo – cyfoethogi profiadau Cymraeg dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg**

Mae Ysgol Bro Helyg, sef yr unig ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn cyfrannu at gyfoethogi profiadau Cymraeg dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol drwy'r celfyddydau mynegiannol.

Mae llawer o ddysgwyr yn perfformio mewn cyflwyniad cân actol. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr iddynt gymhwyso eu medrau Cymraeg llafar mewn modd hwyliog. Lle y bo'n briodol, mae'r testun yn dwysau dealltwriaeth dysgwyr o hanes a diwylliant Cymru ac yn creu ymdeimlad o falchder yn yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, maent yn perfformio cân actol sy'n cynnwys hanes Tryweryn a'r 'Welsh Not'.

Ar ôl magu hyder i berfformio'n llwyddiannus i'r cyhoedd, mae arweinwyr yn cynnig cyfle i ddysgwyr berfformio i ddysgwyr eraill mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol. Mae ymarferwyr yn cynnal gweithdy gyda'r dysgwyr yn yr ysgolion Saesneg hynny i fwydo iaith berthnasol fel eu bod yn deall cynnwys y perfformiad ac yn trafod y Gymraeg gyda nhw. Ar ôl y gweithdy, mae dysgwyr yn Ysgol Bro Helyg yn perfformio er mwyn dod â'r wybodaeth a'r hanes yn fyw i'w cyfoedion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau gwrando a siarad dysgwyr yn y ddwy ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn defnyddio technoleg yn effeithiol, er enghraifft drwy gynnig cyfleoedd i ddysgwyr recordio clipiau fideo yn defnyddio technoleg sgrin werdd. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn addasu adnoddau'n greadigol er mwyn cael ystod addas. Er enghraifft, maent yn addasu gemau ac yn creu eu hadnoddau defnyddiol eu hunain, fel matiau iaith, gan nad yw'r adnoddau ar gael yn y Gymraeg yn wreiddiol. Ar y cyfan, mae prinder adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o'r broses drochi hwyr, gan gynnwys adnoddau amlgyfrwng addas. Mae hyn yn llesteirio gallu ymarferwyr llai hyderus i gynllunio gweithgareddau addas i ddysgwyr, yn enwedig pan na allant fanteisio ar ganolfan trochi iaith neu athrawon Cymraeg arbenigol.

**Dilyniant a pharhad**

Lle mae darpariaeth i ddatblygu medrau gwrando a siarad ar ei gorau, mae ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau dilyniant a pharhad i ddysgwyr gaffael medrau Cymraeg. Mae ymarferwyr yn nodi'r eirfa a'r patrymau cystrawennol mae dysgwyr eu hangen i ddod yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn cyflwyno'r geiriau a'r patrymau hyn yn gyson ac yn cynllunio cyfleoedd i ail-ymweld ac adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae lleiafrif y lleoliadau nas cynhelir yn defnyddio'n adnoddau'n effeithiol sy'n helpu ymarferwyr i gefnogi eu medrau iaith eu hunain wrth gynllunio dilyniant addas i'w dysgwyr.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn mapio geirfa a phatrymau cystrawennol yn fwriadus ar draws yr ystod oed ac yn eu hymgorffori'n gelfydd ym mhrofiadau dysgwyr. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darparu sesiynau dyddiol i ymarfer geirfa a phatrymau cystrawennol, ac yn cynnig cyfleoedd iddynt eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Ym mwyafrif yr achosion hyn, mae ymarferwyr yn defnyddio cynllun cytûn buddiol i gyflwyno patrymau cystrawennol sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol. Lle mae arfer yn llai effeithiol, mae ymarferwyr yn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol ar hap ac yn cyflwyno iaith sy'n cyd-fynd â'r thema heb ystyried dilyniant di-dor ym mhrofiadau dysgu iaith dysgwyr. Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb i ddysgwyr, ond nid ydynt yn ystyried eu datblygiad Cymraeg yn ddigon bwriadus. O ganlyniad, nid yw'r holl ddysgwyr yn datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol yn ddigon amserol wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg dros amser.

Mae gan lawer o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion drefniadau anffurfiol i drafod

medrau Cymraeg dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o un darparwr neu ddosbarth i'r llall. Yn yr achosion cryfaf, mae ymarferwyr yn cytuno ar ddulliau cyffredin i ddatblygu medrau ieithyddol dysgwyr. Er enghraifft, mae lleoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn ysgolion yn defnyddio caneuon am adegau gwahanol o'r dydd yn gyson, neu'n cyflwyno seiniau llythrennau'r wyddor drwy ddefnyddio'r un dechneg. Mae ychydig o ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth fuddiol iawn â'r athrawon sy'n addysgu dysgwyr y flwyddyn academaidd ganlynol. Er enghraifft, maent yn cyfeirio'n benodol ar yr eirfa a'r patrymau cystrawennol mae dysgwyr wedi'u caffael.

**Asesu**

Wrth roi adborth llafar i ddysgwyr sy'n derbyn darpariaeth drochi gynnar, mae llawer o ymarferwyr yn rhoi canmoliaeth addas wrth iddynt ddod i adnabod a defnyddio geirfa'n gyntaf er mwyn adeiladu hyder dysgwyr. Mae ymarferwyr yn ailadrodd yn gyson, a lle mae dysgwyr yn dechrau ymateb mewn brawddegau llawn, maent yn rhoi adborth drwy fodelu'r patrwm cystrawennol cywir mewn modd sensitif ar ôl clywed ymgais y dysgwr. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r dechneg hon yn fedrus, sef 'ail-lunio', fel y disgrifir gan Lyster a Ranta (1997, t.46-47). Dyma'r broses o ailffurfio ymateb dysgwr drwy hepgor y camgymeriad. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwyfwy hyderus wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg yn y cyfnod sylfaen, mae ymarferwyr effeithiol yn annog dysgwyr i ailadrodd y frawddeg yn gywir, yn unol â datblygiad Cymraeg y dysgwr. Maent yn cydnabod y cydbwysedd rhwng canmol ac annog, ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn datblygu hyder dysgwyr yn effeithiol sydd, yn ei dro, yn eu hysgogi i siarad Cymraeg yn ddigymell heb ofn gwneud camgymeriad.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn defnyddio dulliau priodol i olrhain cynnydd dysgwyr wrth iddynt gaffael a datblygu eu medrau Cymraeg. At ei gilydd, mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn addas wrth gynllunio gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, maent yn gweithredu ar wybodaeth sy'n aml yn rhy amwys i nodi'r camau nesaf mewn datblygiad ieithyddol dysgwyr. O ganlyniad, nid yw'n bosibl olrhain datblygiad Cymraeg dysgwyr yn ddigon effeithiol bob tro. Er enghraifft, nid yw lleiafrif yr ymarferwyr yn nodi llwyddiannau a meysydd i'w datblygu dysgwyr a grwpiau o ddysgwyr, fel y rhai sy'n fwy abl, yn ddigon trylwyr wrth iddynt gaffael geirfa a phatrymau cystrawennol yn rhan o'r broses drochi gynnar.

**Cameo – datblygu medrau gwrando a siarad ar gyfer dysgwyr o bob cefndir ieithyddol**

Mae ymarferwyr yng Nghylch Meithrin Penparc, Cyngor Sir Ceredigion, yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ymarfer medrau gwrando a siarad.

Mae ymarferwyr yn cynnig sesiynau torfol buddiol, sy'n gyfle i bob dysgwr ymateb i gwestiynau gyda'i gilydd a chanu ar y cyd. Maent hefyd yn eu rhannu'n grwpiau gwahanol i roi cyfle i ddysgwyr ymateb i gwestiynau'n unigol, gan ystyried yn ofalus ddatblygiad ieithyddol dysgwyr o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, wrth drafod ffrwythau, maent yn bwydo geirfa fwy heriol i un grŵp o siaradwyr hyderus fel 'berllan' ac 'amryliw'. Maent hefyd yn gofyn cwestiynau sydd yn eu hymestyn yn werthfawr, fel 'beth yw mwy nag un afal?'. Mae ymarferwyr eraill yn cynorthwyo dysgwyr sy'n newydd i'r Gymraeg i feithrin geirfa symlach. Er enghraifft, trwy ganolbwyntio ar enwau a lliwiau ffrwythau gwahanol a chyflwyno ansoddeiriau fel 'bach' a 'mawr'.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr fodloni eu hanghenion ieithyddol. Maent yn cynllunio'n fwriadus ac yn penderfynu ar eirfa a phatrymau cystrawennol i'w cyflwyno trwy gyfrwng eu themâu. Maent yn manteisio ar gyfleoedd amrywiol i ddysgwyr ddefnyddio a chymhwyso'r iaith maent wedi'i chaffael drwy gael eu trochi ymhellach mewn gweithgareddau mewn ardaloedd gwahanol yn y ddarpariaeth gynhwysol. Maent yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr drwy ymweliadau yn y gymuned leol, er enghraifft drwy fynd am dro i'r berllan gyfagos.

Mae bron bob pennaeth ysgol ac arweinydd canolfan trochi iaith yn hynod gefnogol o lwyddiannau rhaglenni dwys mewn canolfannau trochi iaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn olrhain cynnydd dysgwyr drwy ddull anffurfiol, er enghraifft drwy arsylwi sesiynau a sgwrsio gyda dysgwyr. Yn ddiweddar iawn, mae ychydig o ganolfannau wedi mabwysiadu system olrhain sy'n debyg i'r

gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol drwy ddefnyddio 'model 5 cam o Gymraeg fel ail iaith ychwanegol' i asesu dysgwyr deirgwaith yn ystod y cwrs. Mae hwn yn gyfrwng addas i ymarferwyr olrhain caffael iaith dysgwyr o gam A, a ddiffinnir fel 'Mae'r Gymraeg yn newydd iddynt' hyd at gam D, a ddiffinnir fel 'rhugl'. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth ymarferwyr o'r camau nesaf ar gyfer y dysgwr. Er enghraifft, mae'n gosod disgwyliadau defnyddiol fel bod siaradwyr 'Cam Ch' yn 'gallu ateb cwestiynau caeëdig penodol mewn gwersi'. Fodd bynnag, mae dulliau ar gyfer asesu cynnydd hwyrddyfodiaid trwy gydol eu gyrfa ysgol yn anghyson.

**Darpariaeth ar gyfer grwpiau o ddysgwyr**

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn llwyddo i ddefnyddio'r un dulliau trochi iaith ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr arfer orau, caiff darpariaeth i gefnogi medrau Cymraeg dysgwyr ei thrafod fel rhan o'r broses o adolygu anghenion dysgwyr unigol, ac mae'r plentyn yn cyfrannu at y trafodaethau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn trefnu adnoddau Braille drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr sydd â nam ar y golwg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol fel rhan o'r broses drochi.

Mae bron pob ymarferydd yn cynnig cymorth addas i ddysgwyr sy'n siarad ychydig iawn o Saesneg gartref, os o gwbl. Nid ydynt yn addasu darpariaeth addysg drochi i ddysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg, gan fod y dysgwyr hyn fel arfer yn datblygu eu medrau Cymraeg yn addas. Mae ymarferwyr yn eu cynnwys yn gefnogol ym mhob gweithgaredd ac yn defnyddio'r ystod lawn o ddulliau trochi gwerthfawr i hybu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae ychydig o awdurdodau lleol yn trefnu cymorth mewn sesiynau ar wahân i dargedu medrau Saesneg hwyrddyfodiaid. Mae ychydig iawn o dystiolaeth o ymarferwyr sy'n cynllunio i ddatblygu medrau amlieithrwydd y tu hwnt i gefnogi dysgwyr sydd eisoes yn siarad iaith ychwanegol gartref.

# Dulliau trochi hwyr

Mae rhaglenni trochi hwyr yn fwyaf llwyddiannus pan gânt eu cyflwyno mewn

ffordd ddwys â strwythur a dilyniant pendant, er enghraifft wrth i ddysgwyr gael eu trochi yn y Gymraeg gan ymarferwyr arbenigol drwy gydol y dydd am gyfnod o dymor neu fwy. Fel arfer caiff y ddarpariaeth hon ei chyflwyno mewn canolfannau trochi iaith. Mewn lleiafrif o ganolfannau trochi iaith, mae dysgwyr yn dychwelyd I'r fam ysgol am gyfran fach o'r wythnos, fel un diwrnod. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr i ymdoddi'n gymdeithasol gyda'u cyfeillion yn y fam ysgol. Ble mae dysgwyr yn mynychu canolfan trochi iaith trwy gydol yr wythnos, maent yn gwneud cynnydd cyson a chynaledig wrth gaffael medrau Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau trochi iaith yn cynnig rhaglen sydd wedi'i chynllunio'n fwriadus ac sy'n cyflwyno, atgyfnerthu ac adeiladu ar eirfa a phatrymau cystrawennol mewn ffordd strwythuredig. Mae ymarferwyr yn cydnabod mai datblygu medrau gwrando a siarad yw'r sylfaen i ddysgwyr wrth iddynt gaffael medrau Cymraeg yn llwyddiannus mewn cyfnod byr.

Lle na all hwyrddyfodiaid fanteisio ar ganolfan trochi iaith, mae'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynllunio ar eu cyfer yn amrywio, hyd yn oed o fewn awdurdodau lleol unigol. Yn yr achosion hyn, caiff cymorth i ddysgwyr ei ddarparu yn eu hysgol newydd. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynnig ystod briodol o weithgareddau i gefnogi hwyrddyfodiaid. Yn yr achosion cryfaf, mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth a chymorth gan ymarferwyr arbenigol o'r awdurdod lleol. Mewn ychydig iawn o achosion lle mae dulliau trochi hwyr yn effeithiol yn y cyd-destun hwn, mae dysgwyr yn dilyn rhaglen drochi sy'n cael ei darparu am gyfran sylweddol o'r amserlen wythnosol. At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth hon yn cefnogi dysgwyr yn ddigon effeithiol wrth iddynt gael eu trochi yn y Gymraeg.

Mae ychydig iawn o awdurdodau lleol yn cefnogi hwyrddyfodiaid yn briodol drwy gynnig cymorth peripatetig iddynt. Yn yr arfer orau, mae'r sesiynau cymorth hyn yn cynnig cyfleoedd addas i ddysgwyr feithrin a datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol addas. Mae ymarferwyr yn ennyn brwdfrydedd dysgwyr ac yn cynnal cysylltiadau priodol ag athrawon dosbarth, ac yn darparu adnoddau dysgu atodol iddynt. Fodd bynnag, dim ond am gyfran gyfyngedig o'r amserlen y mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig. O ganlyniad, mae hyn yn llesteirio dysgwyr rhag gwneud cynnydd cyson gan nad yw'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd digon rheolaidd iddynt dderbyn cefnogaeth ddwys a strwythuredig yn Gymraeg.

Mae llawer o ymarferwyr yn y canolfannau trochi iaith yn dilyn rhaglenni trochi hwyr penodol. Mae llawer o'r rhaglenni'n debyg i'w gilydd o ran eu cynnwys a'u strwythur, er bod ymarferwyr yn aml yn mireinio ac yn dehongli'r rhaglen yn

wahanol. Mae llawer o'r rhaglenni hyn yn cyflwyno dysgwyr i fyd dychmygol â chymeriadau sy'n eu hysgogi gan ddefnyddio deunyddiau gweledol a storïau gafaelgar. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cyfoethogi profiadau dysgwyr â gweithgareddau ac adnoddau perthnasol sy'n atgyfnerthu geirfa a phatrymau cystrawennol. Fodd bynnag, nid yw'r holl raglenni a'r adnoddau'n adlewyrchu ac yn dathlu'r amrywiaeth sy'n bodoli yn y Gymru gyfoes.

Wrth gyfathrebu â dysgwyr, mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio symudiadau ac ystumiau'n rheolaidd ac yn fwriadus i atgyfnerthu geirfa a phatrymau cystrawennol penodol fel rhan o ddull trochi effeithiol. Er enghraifft, maent yn pwyntio at eu clustiau bob tro maent yn defnyddio'r gair 'gwrandewch', yn rholio eu dwylo bob tro maent yn dweud 'ar ôl' neu'n efelychu ysgrifennu nodyn wrth ddweud y gair 'ysgrifennu'. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn cynnig profiadau ymarferol a gweledol i ennyn diddordeb dysgwyr ac atgyfnerthu elfennau ieithyddol penodol yr wythnos, er enghraifft drwy ymweld â'r parc lleol. Mae'r profiadau bwriadus hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymhwyso geirfa a phatrymau cystrawennol mewn cyd-destunau go iawn.

**Cameo – amrywio'r dull o ymarfer geirfa a phatrymau cystrawennol**

Mae ymarferwyr yng Nghanolfan Iaith Maesincla, Cyngor Gwynedd, yn defnyddio nifer o ddulliau i ymarfer ac ailadrodd geirfa a phatrymau cystrawennol yn gyson. Maent yn amrywio'r gweithgareddau er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i ymarfer y patrwm iaith 'Oes gen ti?' a'r atebion 'Oes, mae gen i?' neu 'Nac oes, does gen i ddim', ynghyd â geirfa sy'n ymwneud a'r sŵ.

Mae ymarferwyr yn defnyddio dulliau gwahanol i gefnogi'r broses drochi'n fedrus, gan symud o'r naill weithgaredd i'r llall â chyflymder priodol. Er enghraifft, maent yn dechrau drwy roi cyfle i bob un o'r dysgwyr ofyn cwestiwn ac ymateb naill ai'n unigol neu fel grŵp. Maent yn cynorthwyo dysgwyr drwy arddangos geirfa a phatrymau cystrawennol addas ar fwrdd gwyn.

Yn ddiweddarach yn y sesiwn, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymhwyso'r un medrau gwrando a siarad wrth chwarae gemau bwrdd, er enghraifft wrth i grŵp chwarae gêm gyda'r nod o gymharu cardiau sydd â lluniau o anifeiliaid arnynt. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ofyn cwestiynau fel 'Oes gen ti eliffant?', ac i'r partner ymateb yn briodol. Mae dysgwyr yn cylchdroi drwy nifer o weithgareddau diddorol sy'n eu galluogi i gymhwyso'r un medrau'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn ymarfer sgriptiau drwy ddynwared cymeriadau o'r rhaglen drochi, yn defnyddio meddalwedd gyfrifiadurol i baru lluniau a geiriau, ac yn chwilota drwy eiriadur lliwgar am anifail sy'n dechrau â phob llythyren o'r wyddor ac yna'n ei gofnodi.

Wrth i'r dysgwyr ymgolli mewn gweithgareddau hwyliog sy'n atgyfnerthu'r un eirfa a phatrymau, maent yn dod yn siaradwyr fwyfwy hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn meysydd dysgu eraill. Maent yn darparu sesiwn rifedd ddyddiol sy'n gyfle gwerthfawr i gyflwyno'r prif dermau mathemategol yn Gymraeg, fel rhif, siapiau, arian ac amser. Mae llawer ohonynt yn atgyfnerthu datblygiad ieithyddol dysgwyr drwy chwarae gemau buarth a gemau pêl. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cyflwyno gweithgareddau ymarferol drwy gynnig cyfleoedd i ddysgwyr drafod yn Gymraeg, er enghraifft wrth blannu hadau berwr y dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn disgrifio eu harfer eu hunain yn wybodus, er enghraifft drwy gyfeirio at bwysigrwydd modelu iaith yn gyson a chyflwyno patrymau cystrawennol yn fwriadus. Yn yr achosion cryfaf, mae ymarferwyr yn cyfeirio at ymchwil ryngwladol sy'n cael dylanwad buddiol ar eu harfer. Fodd bynnag, mae llawer o'r ymarferwyr hyn yn seilio eu hegwyddorion ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu gan ymarferwyr profiadol dros amser, yn hytrach na thrwy gyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus.

Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae ymarferwyr yn derbyn dysgwyr i ganolfannau trochi iaith yn syth ar ôl iddynt drosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnig cyfle buddiol i hwyrddyfodiaid gaffael medrau Cymraeg ar unwaith. Yn yr achosion hyn, mewn sefyllfa lle nad yw'r dysgwr yn

ymuno â'r ganolfan ar ddechrau'r tymor, mae ymarferwyr yn ymestyn cyfnod y ddarpariaeth iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, pan fydd dysgwyr yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod tymor ysgol, mae'n ofynnol iddynt aros tan ddechrau'r tymor canlynol cyn iddynt allu manteisio ar y ganolfan trochi iaith. Mae hyn yn golygu y gall y grŵp sydd eisoes yn mynychu'r ganolfan barhau i gael profiadau trochi hwyr dwys yn ddi-dor.


Mewn achosion lle mae dysgwyr yn aros am le mewn canolfan trochi iaith, mae'r cymorth sydd ar gael iddynt yn amrywio. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae aelodau tîm ymgynghorol y Gymraeg yn ymweld â dysgwyr yn yr ysgol newydd yn wythnosol i'w cefnogi â sesiynau ymyrraeth neu i ddarparu gweithgareddau addas i ymarferwyr yr ysgol. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr awdurdodau, nid oes darpariaeth benodol wedi'i chynllunio'n fwriadus i hwyrddyfodiaid yn yr achosion hyn. O ganlyniad, mae athrawon dosbarth yn addasu darpariaeth i hwyrddyfodiaid, fel y bo'n briodol. Mewn ychydig o sefyllfaoedd, mae hyn yn arwain at ymarferwyr yn cynyddu'r defnydd o Saesneg yn yr ystafell ddosbarth am gyfnod i gefnogi dysgwyr newydd.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn cynnig cymorth ôl-ofal gwerthfawr i ddysgwyr sydd eisoes wedi mynychu'r ganolfan. Yn yr arfer orau, mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn cael ymweliad wythnosol gan aelod staff o'r ganolfan trochi iaith neu dîm ymgynghorol y Gymraeg. Maent yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach drwy ddarparu gweithgareddau sy'n atgyfnerthu dysgu blaenorol dysgwyr mewn cyd-destunau gwahanol. Mae ychydig o ymarferwyr mewn ysgolion yn cynnig cyfleoedd bwriadus i hwyrddyfodiaid ymuno â grwpiau fel y 'Criw Cymraeg' wedi iddynt ddychwelyd o'r ganolfan trochi iaith. O ganlyniad, mae dysgwyr yn parhau i ymfalchïo yn eu medrau ieithyddol newydd ac yn dylanwadu'n gyson ar ddysgwyr eraill i siarad Cymraeg.

**Cameo – cydweithredu fel tîm i gefnogi trochi iaith**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cefnogi addysg drochi drwy gyfuniad o ddarpariaeth gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg a Chanolfan Iaith Conwy. Mae gan aelodau'r tîm brofiad o weithio fel athrawon yng Nghanolfan Iaith Conwy ac, o ganlyniad, mae ganddynt brofiad a dealltwriaeth gadarn i gefnogi ymarferwyr a hwyrddyfodiaid.

Maent yn crynhoi'r broses addysg drochi drwy gyfeirio at 'linyn llafaredd' defnyddiol:




Mae dysgwyr sy'n cael eu derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol ar ganol tymor ysgol yn cael eu cefnogi gan ddarpariaeth 'cyn canolfan'. Caiff sesiynau wythnosol eu cynnal yn y cyfnod cyn iddynt fynychu Canolfan Iaith Conwy. Caiff geirfa a phatrymau cystrawennol eu cyflwyno ymlaen llaw, ac mae ymarferwyr o'r fam ysgol yn ategu'r hyn a gyflwynwyd yn ystod yr wythnos.

Caiff dysgwyr eu cefnogi gan ddarpariaeth ôl-ofal am gyfnod o hyd at chwe wythnos yn ystod y tymor ar ôl eu cyfnod dwys yng Nghanolfan Iaith Conwy. Gwnânt hyn mewn sesiynau wythnosol wyneb-yn-wyneb neu o bell drwy feddalwedd fideo-gynadledda. Mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar yr holl feysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg, sy'n rhan o wasanaeth gwella addysg yr awdurdod, yn arwain a chefnogi'r gweithlu addysg drwy gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol. Maent yn arwain, rhannu a/neu'n modelu dulliau trochi gwerthfawr gydag athrawon a chynorthwywyr mewn ysgolion. Er enghraifft, mae'r Tîm Ymgynghorol yn gweithio gydag athrawon dosbarth i gynnig cyfleoedd iddynt arsylwi ac efelychu arferion addysgu a dysgu effeithiol. O ganlyniad, mae athrawon yn addasu eu

dulliau addysgu i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg.

Mae arweinwyr ysgolion yn gwneud cais am gefnogaeth benodol gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg er mwyn ymateb i amgylchiadau unigol. Er enghraifft, maent yn cynnig cymorth i gynllunio gweithgareddau trochi yn seiliedig ar lyfr penodol i gyd-fynd â thema'r 'Celtiaid'.

Trwy'r cydweithio a'r gefnogaeth gyson hon, mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau mewn profiadau cyfoethog sy'n cefnogi'r dysgwyr yn effeithiol.

At ei gilydd, mae ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn datblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn llwyddiannus. Maent yn arfogi dysgwyr â geirfa a phatrymau cystrawennol sy'n eu cynorthwyo'n fuddiol wrth iddynt gymhwyso eu medrau Cymraeg ar draws y meysydd dysgu. Mae'r dull trochi dwys yn cefnogi dysgwyr yn hynod gadarn ac yn cynnig cyfleoedd effeithiol iddynt fagu hyder i siarad Cymraeg sydd, yn ei dro, yn cefnogi eu medrau darllen ac ysgrifennu yn gadarn. O ganlyniad i brofiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y canolfannau trochi iaith, maent yn llwyddo i ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u medrau dysgu cyffredinol yn fedrus wrth iddynt barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Dysgu ac agweddau at ddysgu

## Trochi cynnar (dysgu ac agweddau at ddysgu)

Mae bron bob dysgwr sy’n rhan o ddarpariaeth trochi cynnar yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn ymgolli mewn gweithgareddau lle darperir addysg drochi mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd. Maent yn cychwyn wrth wrando ar y Gymraeg sy’n cael ei fodelu gan oedolion ac ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau gydag ystumiau i’w cefnogi. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau ymuno gydag oedolion a phlant eraill gyda hyder cynyddol wrth ganu caneuon byrion a dweud rhigymau, er enghraifft. Maent yn dechrau efelychu’r ymarferwyr trwy ddefnyddio geirfa allweddol addas. Yn ystod eu hamser yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod yn siaradwyr cynyddol hyderus.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion, mae llawer o ddysgwyr y cyfnod sylfaen yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau mewn sesiynau. Wrth iddynt datblygu trwy’r cyfnod mae llawer yn datblygu geirfa eang, gan adeiladu brawddegau yn hyderus gyda chymorth ymarferwyr. O ganlyniad i’r broses drochi, maent yn siarad Cymraeg yn fwyfwy naturiol gyda staff, er efallai nad yw’r gystrawen bob amser yn gywir. Mae lleiafrif y dysgwyr yn siarad Cymraeg gyda’u cyfoedion yn y dosbarth yn rheolaidd. Mae bron bob un o’r dysgwyr yn caffael y medrau angenrheidiol i lwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau gwrando a siarad yn effeithiol. Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae safonau gwrando a siarad yn gryf, mae dysgwyr yn ymateb i amrywiaeth o sbardunau mewn sesiynau sydd wedi eu cynllunio’n fwriadus i hybu a datblygu medrau gwrando a siarad. Daw’r dealltwriaeth yn gyntaf lle mae dysgwyr yn gwneud synnwyr o eirfa wrth ei hail ddefnyddio. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau cyfarwydd, a chanu a rapio mewn cyd destunau gwahanol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth sydd yn ei dro yn eu cefnogi i ddod yn siaradwyr gynyddol hyderus.

Wrth i ymarferwyr gyflwyno ac ail-ymweld ag ystod o batrymau cystrawennol cywir, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn eu hefelychu’n gywir, gan eu cymhwyso a’u cymhathu fwyfwy cywir dros gyfnod. O oedran cynnar, maent yn dechrau

ymateb yn addas i gyfarwyddiadau syml, er enghraifft, 'Ewch i eistedd wrth y bwrdd coch'. Maent yn gwrando ar ymarferwyr mewn sesiynau grŵp, ac yn ymateb yn briodol, er enghraifft wrth gynnig teitl cân addas pan ofynnir y cwestiwn 'Pa gân hoffet ti ganu?'. Maent yn ymateb i gwestiynau gan ymarferwyr yn fwyfwy annibynnol wrth chwarae yn ardaloedd y ddarpariaeth o fewn a thu hwnt i'r dosbarth.

**Cameo – defnyddio medrau Cymraeg yn ardaloedd gwahanol y darpariaeth**

Yn Ysgol Mornant, yn Sir Fflint, mae dysgwyr yn datblygu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus o oedran cynnar wrth chwarae ac ymateb i weithgareddau yn ardaloedd gwahanol y cyfnod sylfaen. Er enghraifft, mae dysgwyr y dosbarth meithrin yn datblygu medrau gwrando a siarad o amgylch y twb tywod.

Mae'r dysgwyr hyn yn chwilota am ddinosoriaid a cherrig yn y tywod gyda brwdfrydedd. Mae'r gweithgaredd ymarferol yn dal dychymyg y dysgwyr ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i'r ymarferwyr gyflwyno iaith. Mae'r cynorthwywr yn eu holi'n effeithiol, ac yn atgyfnerthu geirfa wrth i'r dysgwyr ddidoli'r teganau. O ganlyniad, maent yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau fel 'I ba flwch mae'r garreg yma yn mynd?', ac yn cynnig ansoddeiriau syml fel 'bach' a 'mawr'. Mae dysgwyr yn dwyn i gof geirfa sy'n ymwneud â'r thema yn briodol, er enghraifft trwy gynnig y gair 'sgerbwd' i helpu cyfaill oedd yn defnyddio'r gair 'skeleton'.

Yn ystod eu hamser yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod yn fwyfwy hyderus i siarad Cymraeg mewn amrywiaeth gyfoethog o gyd-destunau dysgu. Maent yn defnyddio ystod o eirfa yn gynyddol dda sy'n cyd-fynd â'r thema, er enghraifft i ddisgrifio ystyr y gair 'ffrwydro' wrth drafod tân gwyllt. Erbyn Blwyddyn 1, mae llawer o ddysgwyr yn ymateb yn frwdfrydig mewn

brawddegau llawn gyda chefnogaeth rheolaidd yr ymarferwyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn dod yn gynyddol hyderus wrth drafod gyda'u cyfeillion, ymarferwyr ac ymwelwyr yn ystod y cyfnod trochi cynnar. Er enghraifft, maent yn datblygu hyder trwy ymarfer a pherfformio mewn cyngherddau ac eisteddfodau, neu drwy fynychu clybiau sy'n hybu defnydd o'r Gymraeg. Mae lleiafrif yn gwneud gwallau ieithyddol o ran cywirdeb iaith wrth ymateb i gwestiynau ac wrth fynegi eu hunain. At ei gilydd, maent yn hyderus i siarad a thrafod ac yn aml yn cywiro eu hunain neu gywiro eu cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y dysgwyr yn datblygu i fod yn siaradwyr digon rhugl gan nad yw ymarferwyr yn darparu cyfleoedd digon cyson i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. O ganlyniad, mae lleiafrif y dysgwyr yn tueddu i gyfieithu geirfa a phatrymau cystrawennol o'r Saesneg i'r Gymraeg cyn ynganu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau darllen. Maent yn dod i adnabod seiniau llythrennau gwahanol yn gywir cyn dechrau cyfuno'r seiniau i ddarllen geiriau syml. Maent yn ymuno mewn gweithgareddau torfol i atgyfnerthu'r ymwybyddiaeth hon, er enghraifft trwy ganu caneuon yn frwdfrydig am y llythrennau unigol a gwneud symudiadau sy'n gysylltiedig â hwy. Maent yn ymarfer y medrau hyn mewn gweithgareddau unigol yn fuddiol. Er enghraifft, maent yn edrych a chyfeirio at siâp y llythyren sydd wedi ei chuddio mewn llun, yn dewis magned sy'n cyfateb i'r llythyren, ac yna'n ynganu'r sain yn gywir. O ganlyniad, maent yn adnabod llythrennau'n gynyddol hyderus ac yn datblygu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus.

Yn ystod y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn gyson dros gyfnod sy'n gyfystyr â'u hoed. Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae safonau darllen yn gryf, mae dysgwyr yn mwynhau edrych ar ystod o lyfrau deniadol o oedran cynnar, gan ddangos diddordeb cynyddol yn y testun. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn egluro manylion perthnasol o destunau yn hyderus, er enghraifft wrth ail ddweud stori. Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso eu medrau darllen i bwrpas yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddarllen geiriau sy'n disgrifio anifeiliaid gwahanol fel 'cigysydd' a 'llysieuydd' i ddatrys pos yn yr arddull 'pwy ydw i?'.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddysgwyr yn y cyfnod sylfaen yn gadarn. Mewn lleoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin, mae dysgwyr yn dechrau datblygu medrau ysgrifennu trwy arbrofi a gwneud marciau gan gynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar yn addas. Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod, mae llawer o ddysgwyr yn cofnodi digwyddiadau yn briodol gyda sgaffaldau a

chynhaliaeth gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cyfarwyddiadau yng nghyd-destun eu gwaith thema, neu'n creu rhestrau ar gyfer siopa. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn gyson gan gyfathrebu'n glir ac yn fynegiannol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau siarad ac ysgrifennu yn effeithiol, gyda'r cyswllt hwn yn rhan allweddol o'r broses drochi. Yn yr arferion gorau, mae darparwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gymhwyso geirfa a phatrymau cystrawennol mewn gweithgareddau drama ac ysgrifennu. Er enghraifft, mae dysgwyr yn defnyddio geirfa fel 'anhygoel', patrymau cystrawennol fel 'tawelwch llethol' ac idiomau 'ar ben ei ddigon' yn hynod effeithiol. Fodd bynnag, yn yr ychydig achosion lle mae safonau ysgrifennu'n wan, mae dysgwyr yn ei chael anodd i fewnoli'r iaith gan nad oes digon o gyfleoedd cyson iddynt ymarfer a datblygu eu medrau siarad. Mae hyn yn llesteirio eu gallu i ysgrifennu'n rhydd a chyda hyder annibynnol.

Ar y cyfan, mae dysgwyr o grwpiau gwahanol yn gwneud cynnydd cyson wrth cael eu trochi yn y Gymraeg. Mae bron bob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn unol â thargedau eu cynlluniau datblygu unigol. Yn ogystal, mae dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn caffael medrau Cymraeg i'r un graddau â'u cyfoedion sydd yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Ar y cyfan, mae dysgwyr o gartrefi lle siaredir Cymraeg a rhai lle na siaredir y Gymraeg yn gwneud cynnydd cyson. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion lle mae disgwyliadau ymarferwyr o ddysgwyr yn rhy isel, nid yw dysgwyr mwy abl yn gwneud digon o gynnydd wrth gaffael y Gymraeg.

# Trochi hwyr (dysgu ac agweddau at ddysgu)

Mae bron bob dysgwr yn cymryd rhan mewn sesiynau trochi hwyr gyda brwdfrydedd. Erbyn diwedd y rhaglenni dwys mewn canolfannau trochi iaith, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus a chyda lefel hyfedredd addas. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llwyddo i gael mynediad at gwricwlwm ehangach wrth iddynt ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach yn y fam ysgol. Ar y cyfan, mae dysgwyr sydd yn derbyn ymyrraeth llai dwys yn gwneud cynnydd arafach.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o hwyrddyfodiaid sydd wedi

cwblhau cyfnod llwyddiannus o drochi hwyr yn gwneud cynnydd cystal â’u cyfoedion. Mewn ychydig o achosion, lle mae hwyrddyfodiad mwy abl yn gwneud cynnydd hynod gadarn, mae eu medrau llafar Cymraeg wedi datblygu i fod yn gryfach na’u cyfoedion.

Mewn canolfannau trochi iaith, mae y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando’n astud ac ymateb yn briodol i ymarferwyr wrth iddynt fwydo iaith mewn gweithgareddau amrywiol. Mae y rhan fwyaf yn magu eu hyder yn sydyn ac yn awyddus i siarad heb ofn methu. O ganlyniad, maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml, yn dechrau holi cwestiynau penodol ac yn cynnig atebion addas yn gynnar iawn wrth iddynt gael eu trochi yn y Gymraeg.

Mae bron bob dysgwr yn ymateb yn frwd mewn sesiynau torfol sy’n targedu geirfa a phatrymau cystrawennol gan ymateb gyda chywirdeb cynyddol. Mae ychydig yn atgyfnerthu’r eirfa newydd trwy wneud defnydd pwrpasol o symudiadau. Er enghraifft, maent yn croesi breichiau i atgyfnerthu eu casineb o fwydydd gwahanol gan gynnig ymateb fel ‘Mae’n gas gen i tsili a garlleg’.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwrando ar bartneriaid ac yn ymateb yn briodol, er enghraifft wrth ddisgrifio eu nodweddion personol. Mae bron bob un yn dwyn i gof cystrawennau gwahanol yn llwyddiannus wrth chwarae gêm dorfol sydd yn rhoi cyfleoedd i bawb gyfrannu wrth ymateb i gadwyn o gwestiynau ac ymatebion. Er enghraifft, trwy ofyn ‘Pryd wyt ti’n cael dy ben-blwydd?’ neu ‘Ble wyt ti’n byw?’. Mae llawer yn ymateb yn syml i gwestiynau ategol, fel ‘Beth yw enwau’r cŵn?’ gan gynnig ymateb syml yn hytrach na chynnig brawddeg gyflawn. Maent yn gwneud defnydd o brociau i’r cof sy’n cael eu harddangos yn briodol, er enghraifft wrth droi i wirio geirfa ‘lliwiau’ cyn cynnig manylion am liw anifail anwes. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod yn gynyddol hyderus wrth gymhwyso medrau Cymraeg i ofyn ac ymateb i gwestiynau mewn cyd-destunau gwahanol.

Erbyn tua chanol y rhaglen drochi ddwys, er enghraifft o fewn chwe wythnos, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dwyn i gof ac yn actio sgriptiau byr sydd yn deillio o lyfrau stori'r rhaglen, neu sy’n seiliedig ar leoliadau gwahanol yn y gymuned. Er enghraifft, maent yn actio rhannau cleifion sydd yn ffonio derbynfa mewn meddygfa. Mae’r derbynnydd yn gwirio manylion personol y cleifion ac yn cynnig apwyntiad ar amser penodol. O ganlyniad i’r hiwmor sydd ynghlwm â llawer o’r sgriptiau, mae’r dysgwyr yn ymgysylltu’n llawn i’w rolau. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad â sŵ, maent yn actio rhannau plant sydd yn ffraeo wrth deithio’n ôl ar y bws ar ôl darganfod bod un o’r plant wedi dod a phengwin adref â

hwy, gyda hyn yn ychwanegu at eu brwdfrydedd. Mae dysgwyr mwy abl yn ychwanegu manylion ategol yn fedrus i'r olygfa gan ddefnyddio geirfa estynedig gyda chymorth yr ymarferwyr.

Mae y rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus yn ystod eu hamser mewn canolfannau trochi iaith yn unol a'u mannau cychwyn. Mae'r ychydig sydd angen cymorth ychwanegol i ddod i adnabod y seiniau sy'n gysylltiedig a llythrennau gwahanol yn gwneud cynnydd priodol, gyda'r gweddill yn darllen mewn cyd-destunau gwahanol gydag hyder cynyddol. Maent yn darllen cwestiynau cyfarwydd o'r bwrdd gwyn er mwyn rhoi cymorth iddynt ymateb yn briodol mewn sesiynau torfol, er enghraifft wrth drafod arwyr Cymraeg.

Mae y rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio medrau darllen yn effeithiol wrth weithio mewn parau. Er enghraifft, maent yn darllen ansoddeiriau ar fwrdd gwyn a'u cyfateb gyda'r eirfa Saesneg, neu yn adnabod enwau geiriau penodol mewn chwilair digidol. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn bwrpasol i chwarae gemau, fel darllen enwau chwaraeon ar daflen bingo. Mae'r cyfleoedd buddiol hyn yn eu hannog i gydweithio gan ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol yn ystod sesiynau ysgrifennu dyddiol, sy'n deillio o'r geirfa a phatrymau cystrawennol maent wedi eu meithrin yn ddiweddar. Tua chychwyn y rhaglen, maent yn ysgrifennu ychydig o eiriau allweddol yn gywir, er enghraifft wrth ychwanegu enwau llysiau mewn rysáit trwy lenwi bylchau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dysgwyr yn mentro i ysgrifennu heb boeni sillafu'n berffaith ar y cais cyntaf wrth i ymarferwyr eu cefnogi'n bwrpasol.

Wrth i lawer o ddysgwyr wneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu, maent yn llunio cyfres o frawddegau gyda phatrwm cyffredin yn llwyddiannus. Yn aml, caiff hyn ei strwythuro'n ofalus gyda chefnogaeth ymarferwyr wrth iddynt ddarparu sgaffald addas. Erbyn diwedd y rhaglen drochi, gwneir llai o ddefnydd o esiamplau parod, gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ysgrifennu'n rhydd gan ddefnyddio patrymau sy'n gyfarwydd iddynt. Mae llawer yn parhau i werthfawrogi prociau i'r cof i'w hatgoffa sut i gychwyn brawddegau yn briodol neu i gynnig geirfa gyfoethog. Maent yn galluogi llawer o ddysgwyr i ysgrifennu darnau estynedig yn fedrus. Er enghraifft, maent yn cymryd rôl merch o'r pentref dychmygol yn y rhaglen drochi ac yn ysgrifennu datganiad i'r heddlu yn disgrifio eu bod wedi gweld lleidr yn cuddio mewn ogof ar y traeth. Mae dysgwyr mwy abl yn manteisio ar gyfleoedd i ysgrifennu gyda mwy o ryddid, gan ddefnyddio

geiriaduron yn ogystal â chymorth ymarferwyr i gyfoethogi eu geirfa.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni mewn canolfannau trochi iaith yn cymhwyso eu medrau Cymraeg gydag hyder mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu ar ôl ddychwelyd i'r fam ysgol. Mae bron bob un yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn effeithiol i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu erthygl papur newydd am chwedl boddi Cantre'r Gwaelod. Mae bron bob un yn llwyddo i gymhwyso medrau Cymraeg mewn gwersi rhifedd gan dynnu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus i ddeall a defnyddio geirfa priodol. Er enghraifft, maent yn mesur arwynebedd gwrthrychau yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth drochi hwyr yn fewnol mewn ysgolion neu trwy wasanaeth peripatetig a gaiff ei ddarparu gan yr awdurdod lleol yn gwneud cynnydd priodol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn dros amser, er enghraifft pan ddarperir sesiynau am hanner diwrnod yn ddyddiol dros gyfnod estynedig gan ymarferydd sydd wedi ei hyfforddi i ddilyn rhaglen drochi benodol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a wna dysgwyr yn cyfateb â pha mor aml maent yn derbyn mewnbwn dwys, ac i ba raddau mae'r sesiynau yn adeiladu ar ddysgu blaenorol. O ganlyniad, nid ydynt yn magu hyder mor gyflym â'r sawl sy'n cwblhau rhaglenni dwys mewn canolfannau trochi iaith.

Mewn achosion lle mae dysgwyr yn derbyn addysg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg tra'n disgwyl am le mewn canolfan trochi iaith, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cyfyngedig gan nad yw'r mewnbwn yn ddigon dwys. Er enghraifft, maent yn dod i ddeall geirfa allweddol mewn cyfarwyddiadau ac ychydig o gyfarchion syml. Mae lleiafrif yn manteisio ar ddarpariaeth strwythuredig mewn rhaglenni cyn-canolfan penodol a drefnir gan yr awdurdod lleol sy'n eu galluogi i ddatblygu ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg.

Lle mae gwasanaeth ôl-ganolfan ar gael i ddysgwyr sydd wedi cwblhau rhaglen drochi ddwys, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau i wneud cynnydd cryf. Maent yn parhau i ddatblygu medrau Cymraeg ar lefel briodol wrth i'r ymarferwyr arbenigol a'r athrawon dosbarth gydweithio i sicrhau'r ddarpariaeth mwyaf addas ar gyfer y dysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn siarad gyda hyder lle mae sesiynau ôl-ofal strwythuredig ar gael ar eu cyfer.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau rhaglen drochi ar ddiwedd Blwyddyn 6 cyn trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn caffael medrau Cymraeg yn effeithiol. Maent yn datblygu hyder i siarad Cymraeg a datblygu eu medrau'n briodol, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i gael mynediad at weithgareddau ar draws y meysydd dysgu gyda chefnogaeth ymarferydd ym Mlwyddyn 7.

Lle mae hwyrddyfodiaid yn gwneud llai o gynnydd, mae gan ymarferwyr fynediad at lai o adnoddau addas i'w cefnogi. Yn yr achosion hyn, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn datblygu eu medrau yn ddigon effeithiol, er enghraifft trwy chwarae ystod eang o gemau yn fwriadus i ymarfer patrymau iaith. Mae dysgwyr sy'n gwneud cynnydd arafach yn derbyn mynediad cyfyngedig at lyfrau darllen addas a deunyddiau aml-gyfrwng defnyddiol. Yn ogystal, mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn gwneud llai o gynnydd gan nad oes ymarferwyr cymwys gyda'r gallu i fodelu'r Gymraeg a dealltwriaeth berthnasol o ddulliau trochi ar gael i'w cefnogi.

Ar y cyfan, mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn gwneud cynnydd tebyg i'w cyfoedion wrth gaffael medrau Cymraeg trwy addysg drochi hwyr. Mae bechgyn a merched yn gwneud cynnydd cyson i'w gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu canolfannau trochi iaith yn ymdopi'n briodol gyda'r broses drochi. Mae bron bob dysgwr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn datblygu eu medrau Cymraeg yr un mor effeithiol â'u cyfoedion wrth ddilyn rhaglen drochi mewn canolfannau trochi iaith.

# Atodiad 1 – nifer a lleoliadau canolfannau trochi iaith

| **Awdurdod** | **Canolfannau** |
|---|---|
| Caerdydd | Canolfan Glan Ceubal (Ysgol Glan Ceubal)<br>Canolfan Bro Edern (Uwchradd - Ysgol Bro Edern) |
| Casnewydd | Canolfan Bro Teyrnon (Ysgol Bro Teyrnon) |
| Ceredigion | Canolfan y Felin (Felinfach)<br>Canolfan y Castell (Aberteifi) |
| Conwy | Canolfan Iaith Conwy (Ysgol Dyffryn yr Enfys) |
| Dinbych | Canolfan Glan Clwyd (Ysgol Glan Clwyd) |
| Sir Fynwy | Ysgol y Ffin, Cas Gwent |
| Sir Gâr | Canolfan Griffith Jones (Ysgol Griffith Jones)<br>Canolfan Bro Dinefwr (Llandeilo)<br>Canolfan Maes y Gwendraeth |
| Gwynedd | Canolfan Maesincla (Ysgol Maesincla)<br>Canolfan Dolgellau (Ysgol y Bro Idris)<br>Canolfan Llangybi (Ysgol Llangybi)<br>Canolfan Penrhyndeudraeth (Ysgol Cefn Coch)<br>Canolfan Porthmadog (Uwchradd - Ysgol Eifionydd) |
| Penfro | Canolfan y Preseli (Ysgol y Preseli)<br>Canolfan Bro Gwaun (Ysgol Bro Gwaun)<br>Canolfan Caer Elen (Ysgol Caer Elen) |
| Ynys Môn | Canolfan Moelfre (Ysgol Gymunedol Moelfre)<br>Canolfan Cybi (Ysgol Cybi) |

# Atodiad 2 – blaenoriaethau cenedlaethol

Mae addysg drochi yn cydblethu gyda nifer o flaenoriaethau cenedlaethol.

Ym Medi 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Ymgais oedd hwn i gyfrannu at y nod ‘bod plant Cymru yn gallu datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.’(Llywodraeth Cymru, 2013, t.2). Bwriadwyd iddo fod yn ‘offeryn cynllunio’r cwricwlwm i ysgolion a fydd yn darparu continwwm o ddatblygiad, gan amlinellu’n glir ddeilliannau disgwyliedig blynyddol mewn llythrennedd a rhifedd’. Mae’r ddogfen gynorthwyol yn perthnasu’r disgwyliadau o ran y fframwaith llythrennedd i’r ymarfer trochi trwy egluro:

> ‘Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg cydnabyddir y gall caffael medrau iaith a llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar ddilyn patrwm gwahanol. Bydd methodoleg trochi yn datblygu medrau Cymraeg plant ac erbyn Cyfnod Allweddol 2 bydd cyffelybiaeth gynyddol yn natblygiad medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg. O ganlyniad, yn y dosbarth Derbyn i Flwyddyn 3, bydd rhaid i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio cydran llythrennedd Cymraeg y FfLlRh yn unig (ochr yn ochr â rhifedd). O Flwyddyn 4 ymlaen, disgwyliwn i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio’r cydrannau Cymraeg a Saesneg.’ (Llywodraeth Cymru, 2013, t.10)

Mae’r Fframwaith yn disgrifio’r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sy’n caffael medrau iaith o’r newydd trwy ddweud:

> ‘Mae dysgwyr sydd â Chymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol yn debygol o ddod ar draws Cymraeg/Saesneg am y tro cyntaf ac felly bydd angen cymorth ychwanegol â ffocws arnynt i’w helpu i gaffael medrau llythrennedd priodol. Ar y dechrau gall dysgwyr arddangos medrau sydd yn llawer is na’u disgwyliadau oedran mewn rhai agweddau ar y cydrannau llythrennedd. Dylai athrawon benderfynu pryd bydd yn briodol i ddefnyddio’r FfLlRh yn sail ar gyfer asesu ffurfiannol i’r dysgwyr hynny ac ni ddylent ddefnyddio’r gydran ar drywydd llythrennedd ar gyfer eu hasesu ffurfiannol.’ (Llywodraeth Cymru, 2013, t.12)

Mae’r ddeddf llesiant cenedlaethau’r dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod nodau er

mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn cynnwys y nod o greu ‘Cymru a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’ (Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru, 2015,t.4). Maent yn disgrifio hyn fel ‘cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg, ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden’ (Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru, 2015, t.4).

Yn ei adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, Dyfodol Profiadau: Adolygu Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Donaldson, 2015), galwodd Yr Athro Graham Donaldson ar ysgolion i ‘ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar’ (Donaldson, 2015, t.60). Awgrymodd hefyd y dylid canolbwyntio ar 'gryfhau'r iaith mewn ysgolion cynradd er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgwyr drwy’r Gymraeg.' (Donaldson, 2015, t.60).

Yn 'Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr' (Llywodraeth Cymru, 2017b), nododd Llywodraeth Cymru eu gweledigaeth hirdymor a'u strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r ddogfen yn ei gwneud yn glir bod addysg drochi yn agwedd allweddol ar y strategaeth:

> ‘Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu medrau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.’ (Llywodraeth Cymru, 2017b, t.21)

Maent yn ailddatgan y rôl bwysig sydd gan addysg drochi o ran cyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg yn eu cynllun 'Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026' (Llywodraeth Cymru, 2021c), drwy restru meysydd gweithredu sy'n cynnwys datblygu 'rhwydwaith i gefnogi addysg drochi drwy gyfrwng y Gymraeg', ac ehangu'r 'Rhaglen Drochi Hwyr i Ddysgwyr i sicrhau bod gan yr holl newydd-ddyfodiad i'r iaith fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd ei hangen arnyn nhw a lle bynnag y maen nhw ar eu taith ddysgu' (Llywodraeth Cymru, 2021c, t.12-13).

Yn eu cynllun gweithredu ar gyfer 2017-21, ‘Cenhadaeth ein cenedl' (Llywodraeth Cymru, 2017a) cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y nod o 'ddatblygu dull gweddnewidiol mewn perthynas a dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg gyda'r nod o sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu siarad yr iaith pan fyddant yn gadael yr ysgol' (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.18). Yn eu diweddariad ym mis Hydref 2020,

cyfeiriodd Llywodraeth Cymru yn benodol at drochi fel offeryn i helpu i gyflawni'r nod hwn drwy nodi eu bwriad i:

> ‘Ymchwilio i dechnegau trochi a ddefnyddir ar hyn o bryd ynghyd a’r ymchwil academaidd genedlaethol a rhyngwladol ddiweddaraf er mwyn cefnogi arferion gorau mewn modelau cyfrwng Cymraeg a modelau dwyieithog.
>
> ‘Ystyried rôl canolfannau trochi ieithyddol hwyr wrth gefnogi’r sector cyfrwng Cymraeg ac y ddylai cymorth o’r fath fod ar gael ym mhob awdurdod lleol.’ (Llywodraeth Cymru, 2020, t.28)

Mae ein hadroddiad ar gaffael yr iaith Gymraeg yn cynnig dau argymhelliad sy’n ymwneud yn benodol ag addysg drochi:

> ‘Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:
>
> ‘A6 ddarparu hyfforddiant i ddwysau dealltwriaeth ymarferwyr o’r modd y mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, ac o fethodoleg effeithiol o ran trochi iaith
>
> Dylai Llywodraeth Cymru:
>
> ‘A7 ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar drochi iaith er mwyn cefnogi addysgu a dysgu wrth gaffael y Gymraeg’ (Estyn, 2021, t.35)

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2018-2019, eglurodd Prif Arolygwr ei Mawrhydi yng Nghymru bod defnydd o addysg drochi yn y sector ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn gryfder.

> ‘Mae bron yr holl leoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn datblygu medrau iaith eu dysgwyr yn effeithiol trwy drochi mewn Cymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu yn ystod y cyfnod sylfaen, beth bynnag yw iaith gartref y dysgwyr.’ (Estyn, 2019, t.15)

Adnabuwyd ymarfer cryf o ran addysg drochi hwyr, gan gyfeirio at y ddarpariaeth mewn ychydig o awdurdodau lleol:

‘Mae darpariaeth effeithiol iawn gan ychydig o awdurdodau lleol ar gyfer trochi iaith i ddysgwyr sy’n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd â fawr o Gymraeg neu ddim Cymraeg cyn hynny. Maent yn cynnig cyfleoedd i garfan newydd o ddysgwyr ddatblygu’u medrau mewn Cymraeg, ac yn darparu sylfaen ieithyddol gadarn iddynt gyfranogi’n llawn mewn addysg ddwyieithog a manteisio ar y profiadau a gynigir.’ (Estyn, 2019, t.50)

# Atodiad 3 – trochi cynnar a throchi hwyr yn system addysg Cymru

Mae **trochi cynnar** yn golygu cyflwyno a defnyddio'r Gymraeg fel unig iaith yr addysgu (heblaw am ychydig iawn o eithriadau) yn y cyfnod sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Yn yr arfer orau, mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n fwriadus i ddysgwyr mewn sesiynau iaith penodol, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt gaffael a chymhwyso'u medrau Cymraeg trwy brofiadau cyfoethog o fewn a thu hwnt i'r dosbarth.

Mae **trochi hwyr** yn golygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog sydd heb brofi cyfnod cyfan o drochi cynnar yn y Gymraeg. Gall y dysgwyr hyn fod yn gwbl newydd i'r Gymraeg neu'n ail ymgysylltu gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn yr achosion cryfaf, mae darpariaeth trochi hwyr yn raglen dwys a strwythuredig.

Yn dilyn cyfnodau o gaffael Cymraeg trwy ddulliau trochi effeithiol, mae y rhan fwyaf o ddysgwyr yn magu hyder a hyfedredd addas yn y Gymraeg i gael mynediad llawn at holl feysydd dysgu. Er hyn, mae ymarferwyr yn parhau i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg ar ôl diwedd cyfnodau trochi cynnar neu hwyr beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol. Mae llawer o'r dulliau trochi yr un mor berthnasol wrth gefnogi dysgwyr i gyfoethogi'r Gymraeg ag yr oeddent i gaffael y Gymraeg. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn parhau i fwydo geirfa a phatrymau cystrawennol wrth iddynt ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr ar draws y meysydd dysgu.

# Methods and evidence base

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ail-lunio** | Dull o ddarparu adborth i ddysgwr lle mae'r ymarferydd yn ailgyflwyno brawddeg y dysgwr heb gamgymeriad. ‘Recast’ yn Saesneg. |
| **amgylchedd dysgu** | Ble mae’r addysgu a’r dysgu yn digwydd yn y dosbarth ac o amgylch lleoliad neu ysgol. |
| **brechdan** | Dull o gyflwyno iaith newydd (er enghraifft y Gymraeg), trwy ddweud brawddeg yn Gymraeg (sef yr iaith newydd), yna’r Saesneg (sef iaith y cartref), ac yna’r Gymraeg eto. |
| **cyfuno** | Cyfuno ffonemau unigol â’i gilydd i gynhyrchu graffem neu air. |
| **darpariaeth barhaus ac estynedig** | Termau sy’n disgrifio agweddau o ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen. Mae darpariaeth barhaus yn cyfeirio at ddefnyddio adnoddau sydd ar gael yn barhaus yn yr ystafell ddosbarth dan do neu yn yr awyr agored i ddysgwyr eu defnyddio’n annibynnol. Mae darpariaeth estynedig yn cyfeirio at heriau neu dasgau ychwanegol sy’n cyd-fynd â phwnc neu ddiddordebau dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn defnyddio’r adnoddau hyn yn ogystal â’r adnoddau arferol mewn darpariaeth barhaus |
| **darpariaeth cyn canolfan** | Darpariaeth i gefnogi hwyrddyfodiaid yn ystod cyfnod interim cyn iddynt fynychu canolfan trochi iaith. |
| **darpariaeth ôl-ofal** | Darpariaeth i gefnogi hwyrddyfodiaid ar ôl iddynt fynychu canolfan trochi iaith. |
| **hwyrddyfodiaid** | Dysgwyr (sy’n 7 oed neu’n hŷn) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy’n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen. |
| **iaith darged** | Yr iaith newydd mae dysgwr yn ei chaffael, sef Cymraeg yng nghyd-destun yr adroddiad hwn. |
| **lleoliad nas cynhelir** | Lleoliad a allai fod yn feithrinfa ddydd preifat, cylch chwarae neu Gylch Meithrin sydd â statws cymeradwy sy'n cynnig 10 awr yr wythnos o addysg a ariennir dros o leiaf 3 diwrnod. |
| **mam ysgol** | Yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd mae’r dysgwr yn ymuno â hi llawn amser ar ôl cyfnod mewn canolfan trochi iaith. |
| **newydd-ddyfodiaid** | Term arall ar gyfer ‘hwyrddyfodiaid’ (gweler uchod). Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio’r term ‘hwyrddyfodiaid’. |
| **patrymau cystrawennol** | Strwythur brawddeg sy’n cynnwys geiriau mewn trefn benodol. |
| **trefniadau peripatetig** | Darpariaeth i gefnogi hwyrddyfodiaid drwy drefnu cymorth unigol neu grŵp bach gan ymarferydd sy'n ymweld â'r ysgol yn unol ag amserlen, er enghraifft yn wythnosol. |

| | |
|---|---|
| **trochi cynnar** | Mae trochi cynnar yn golygu cyflwyno a defnyddio'r Gymraeg fel unig iaith yr addysgu (heblaw am ychydig iawn o eithriadau) yn y cyfnod sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Yn yr arfer orau, mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n fwriadus i ddysgwyr mewn sesiynau iaith penodol, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt gaffael a chymhwyso'u medrau Cymraeg trwy brofiadau cyfoethog o fewn a thu hwnt i'r dosbarth. |
| **trochi hwyr** | Mae trochi hwyr yn golygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog sydd heb brofi cyfnod cyfan o drochi cynnar yn y Gymraeg. Gall y dysgwyr hyn fod yn gwbl newydd i'r Gymraeg neu'n ail ymgysylltu gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn yr achosion cryfaf, mae darpariaeth trochi hwyr yn raglen dwys a strwythuredig. |
| **ymarferwyr** | Term cyffredinol i ddisgrifio oedolion sy'n gweithio gyda dysgwyr, er enghraifft athrawon, cynorthwywyr ac arweinwyr cylchoedd meithrin. |
| **ysgol letyol** | Ysgol lle lleolir y ganolfan drochi iaith. |

# Rhifau – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Asher, J. J. (1969) The total physical response approach to second language learning. [Ar-lein]. *The Modern Language Journal,* 53 (1), 3-17. Ar gael o: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/j.1540-4781.1969.tb04552.x [Cyrchwyd 3 Rhagfyr 2021]

Baker, C. & Wright, W. E. (2021) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism (7th edition),* Clevedon, Multilingual Matters.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Caerdydd: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-Welsh.pdf [Cyrchwyd 3 Rhagfyr 2021]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Cyrchwyd 3 Rhagfyr 2021]

Estyn (2018) *Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog* Caerdydd: Estyn [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Welsh%2520in%2520key%2520stage%25202%2520and%2520key%2520stage%25203%2520in%2520Welsh-medium%2520or%2520bilingual%2520schools%2520Cy.pdf [Cyrchwyd 6 Rhagfyr 2021]

Estyn (2019) *Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2018-2019?_ga=2.231575455.1060243981.1638868048-1571461469.1638464399 [Cyrchwyd 6 Rhagfyr 2021]

Estyn (2021) *Caffael yr iaith Gymraeg Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein] Ar gael yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Estyn Welsh language acquisition W%284%29.pdf [Cyrchwyd 6 Rhagfyr 2021]

Lewis, W.G. (2006) Welsh-medium primary education: the challenges and opportunities of the twenty-first century. Yn C. Redknap, et al. (eds.) *Welsh-medium and bilingual education*. Bangor: School of Education, Bangor University [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/publications/Welsh_mediumBE.pdf [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2021].

Lewis, W. G. (2011) *Addysg Ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol*. *Gwerddon* 7, 66-88 [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.gwerddon.cymru/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/erthyglau/Rhifyn7_e3.pdf [Cyrchwyd 6 Rhagfyr 2021]

Lozanov, G. (2005) *Suggestopaedia – desuggestive teaching, communicative method, on the level of the hidden reserves of the human mind.* Vienna: Internatonal Centre for Desuggestology. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www2.vobs.at/ludescher/pdf files/suggestopaedia - book.pdf [Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2021]

Lyster, R. & Rannta, L (1997) Corrective Feedback and Learner Uptake: Negotiation of Form in Communicative Classrooms. Yn *Studies in Second Language Acquisition*. Cambridge: Cambridge University Press [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.researchgate.net/publication/252160472_Corrective_feedback_and_learner_uptake [Cyrchwyd 8 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrenned a Rhifedd Cenedlaethol).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf (gov.wales) [Cyrchwyd 1 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf [Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf [Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2020) *Addysg yng Ngymru: Cenhadaeth ein cenedl.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020.pdf [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2021]

Llywodraeth Cymru (2021a) *Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/addysg-cyfrwng-cymraeg-drwy-drochi-hwyr-mapior-ddarpariaeth-yng-nghymru [Cyrchwyd 29 Tachwedd 2021]

Llywodraeth Cymru (2021b) *Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf [Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2021c) *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 I 2026.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/8/2/1630426725/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2021-i-2026.pdf [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2021]

Redknap, C. (2006) Welsh-medium and bilingual education and training: steps towards a holistic strategy. Yn C. Redknap, et al. (eds.) *Welsh-medium and bilingual education*. Bangor: School of Education, Bangor University [Ar-lein]. Ar gael o: Microsoft Word - Welsh-medium and Bilingual Education.doc (bangor.ac.uk) [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2021]